
Cofrestrfa Tir EM

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013/14



# Cofrestrfa Tir EM
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013/14

Fe'i cyflwynir i'r Senedd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Cyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 17 Gorffennaf 2014.

HC 196

OGL

© Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 2. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version2 neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk. Os ydym wedi nodi deunyddiau trydydd parti, bydd rhaid ceisio caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Os oes ymholiadau gennych am y cyhoeddiad hwn ffoniwch ein tîm Cymorth Cwsmeriaid ar 0844 892 1111 neu e-bostiwch customersupport@landregistry.gsi.gov.uk; ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 7543.

Print ISBN 9781474105378

Gwe ISBN 9781474105385

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

ID 27051402 07/14

Argraffwyd ar bapur gydag o leiaf 75 y cant o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Datganiad gan y Cadeirydd | 5 |
| Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 7 |
| Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud | 9 |
| Ffigurau'r flwyddyn hon | 10 |
| Golwg ar y flwyddyn hon | 13 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid | 19 |
| Adroddiad strategol | 25 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 35 |
| Gwybodaeth gryno | 39 |
| Cyfrifon | 49 |
| Datganiad llywodraethu | 49 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 59 |
| Adroddiad tâl | 61 |
| Tystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol | 69 |
| Datganiadau ariannol | 71 |
| Atodiad A Maint o waith a llwyth gwaith | 95 |
| Atodiad B Ymateb i'r hinsawdd economaidd | 96 |
| Atodiad C Cofnod y Trysorlys | 99 |



# Datganiad gan y Cadeirydd

Mae dyfodol y Gofrestrfa Tir wedi bod yn destun llawer o ddadlau cyhoeddus dros y misoedd diwethaf. Yn dilyn ymgynghoriad mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i hwyluso pwerau ehangach gan ein galluogi i fod yr unig awdurdod cofrestru ar gyfer Pridiannau Tir Lleol.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi bod yn ystyried canlyniadau ymgynghoriad ar fesurau a fyddai'n golygu bod y busnes o gofrestru tir yn canolbwyntio mwy ar gyflenwi ac y byddai llawer mwy o hyblygrwydd gan y Gofrestrfa Tir i weithredu. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y byddai ystyriaeth bellach o'r themâu a godwyd gan yr ymgynghoriad yn werthfawr. Felly, ar yr adeg hon, nid yw unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud i newid model y Gofrestrfa Tir.

Fodd bynnag, bu'r cyfnod hwn o bwyso a mesur ymhell o fod yn saib i ni. Rydym wedi parhau i weithio tuag at ein hamcanion yn y meysydd allweddol sef effeithlonrwydd, data, sicrwydd a galluogrwydd gyda mwy o egni a llwyddiant nag erioed o'r blaen, gan wneud cynnydd gwych tuag at gyrraedd y targedau heriol a osodwyd yn ein Strategaeth Fusnes.

Daeth ein hymrwymiad at fwy o effeithlonrwydd i'r amlwg wrth i ni lwyddo i ragori ar ein targedau mewn meysydd mor amrywiol â chyflymder cwblhau cofrestriadau, rhedeg ein cyllideb weithredol a'r carbon rydym yn ei ryddhau i'r amgylchedd.

Gwelwyd cynnydd o 21 y cant mewn cynhyrchedd wrth i weithlu sefydlog brosesu nifer y ceisiadau sy'n cynyddu'n gyflym yn dilyn yr adfywiad yn y farchnad eiddo. Roedd hyn yn ganlyniad i'w gwaith caled a'r mesurau effeithlonrwydd a'r gwelliannau technolegol rydym yn eu cyflwyno. Mae bron 56 y cant o geisiadau sy'n effeithio ar deitlau cofrestredig yn cael eu cyflwyno'n electronig bellach. Yr her nesaf fydd datblygu prosesau mwy effeithlon ar gyfer y ceisiadau hyn.

Rydym wedi bod yn rhagweithiol hefyd wrth ehangu ein rôl yn y farchnad eiddo er lles yr economi. Drwy ddatblygu prototeip o'r gofrestr Pridiannau Tir Lleol dangoswyd sut y gallem ni ddefnyddio ein profiad a'n harbenigedd i wella'r broses drawsgludo. Credwn y gallai fod meysydd y tu allan i'n cylch gwaith traddodiadol lle y gallem ni chwarae rôl gadarnhaol debyg.

Torrwyd tir newydd hefyd yn y defnydd a'r ailddefnydd o'n data. Dros y flwyddyn rydym wedi rhyddhau setiau data newydd yn gyson ac i safonau ansawdd a hygyrchedd uchel. Mae busnesau'n cael hyd i ffyrdd cyffrous o ddefnyddio'r data i greu gwasanaethau newydd sy'n fanteisiol i farchnadoedd a defnyddwyr.

Mae ein data pris a dalwyd yn cael ei ddefnyddio gan bron pob un o ddadansoddwyr y farchnad tai ac eiddo ac yn ganolog i'r mwyafrif o'r ceisiadau eiddo sydd ar gael.




Yn wir, dyfarnwyd un o'r gwobrau yn ein her data agored i Adzuna, a seiliodd ei syniad ar ffordd newydd sbon o ddefnyddio ein data i helpu ceiswyr gwaith a phrynwyr tai i ganfod ardaloedd fforddiadwy i weithio a byw.

Mae ein rôl o roi sicrwydd i'r farchnad eiddo yn golygu bod rhaid i ni wella ein gwasanaeth cwsmeriaid a'n systemau atal twyll yn gyson. Roedd cofrestriadau o safon uchel a rhoi sylw manwl i'r newid yn anghenion cwsmeriaid wedi ein helpu i ragori ar ein targedau bodlonrwydd cwsmeriaid a Sgôr Hyrwyddwr Net sydd eisoes yn dargedau uchel. Fodd bynnag, gwyddwn y bydd y clod yn pylu'n gyflym os na lwyddwn i fodloni ein dyletswydd i atal twyll eiddo. Mae ein gwasanaeth newydd am ddim Property Alert yn un o'r ffyrdd niferus rydym yn helpu perchnogion tai i leihau'r risg o dwyll.

Yn wyneb yr ansicrwydd ynghylch ein statws yn y dyfodol nid yw'n syndod efallai i ni golli ein targed ymgysylltu â staff. Ond mae ein pobl wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad at eu gwaith, eu cydweithwyr a'u cymunedau mewn nifer o ffyrdd eraill.

Gwyddom fod cael gweithlu medrus a brwdfrydig yn hollbwysig i'n helpu i wireddu ein huchelgeisiau yn y dyfodol fel y mae wedi bod i lwyddiannau'r 12 mis diwethaf. Yn ystod blwyddyn o ansicrwydd rhaid canmol y tîm rheoli dan arweiniad Ed Lester a'n staff am ein llwyddiant yn cyrraedd cynifer o'n targedau a'n bod ni wedi gallu chwarae rôl lawn wrth gynnal dyfodol economaidd ein gwlad. Gyda chymorth a datblygiad pellach bwriadwn adeiladu ar y llwyddiant hwn a darparu gwasanaeth newydd a gwell er lles ein cwsmeriaid a'r economi yn gyffredinol.



**Mark Boyle**
Cadeirydd
Bwrdd y Gofrestrfa Tir



# Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr



Mae fy mlwyddyn gyntaf yn y Gofrestrfa Tir wedi bod yn flwyddyn o newid a thwf mawr mewn gweithgareddau busnes yn ôl yr arfer. Mae'n dyst i ymroddiad a phroffesiynoldeb cydweithwyr bod y Gofrestrfa Tir wedi gallu symud ymlaen ag agweddau ar y Strategaeth Fusnes newydd ac ar yr un pryd delio â nifer y trafodion sydd wedi cynyddu 16 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r Strategaeth Fusnes a gafodd ei chymeradwyo gan y Gweinidog yn 2012 yn dechrau datblygu. Mae cydweithwyr yn y Gofrestrfa Tir wedi cyflawni darn o waith arwyddocaol a heriol i ddatblygu'r gwaith o gynllunio a modelu sydd ei angen i wireddu'r manteision disgwyliedig. Mae'r manteision hyn yn cynnwys cynyddu cynhyrchedd, a gaiff ei yrru gan drafodion digidol diofyn, gwella gwasanaethau ar-lein i'r cwsmer a gwneud y defnydd mwyaf posibl o'n data.

Er mwyn cyflawni'r strategaeth, mae cyfranddaliwr y llywodraeth - y Weithrediaeth Cyfranddalwyr - wedi cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos er mwyn i'r busnes o gofrestru tir allu canolbwyntio mwy ar gyflenwi a chael mwy o hyblygrwydd i weithredu. Roedd yn cynnwys cynigion i greu cwmni newydd i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflenwi gwasanaeth iddo a chael Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir ar wahân gyda swyddogaethau rheoleiddio yn bennaf.

Roedd y Gofrestrfa Tir hefyd wedi ymgynghori ar bwerau ehangach i fod yr unig awdurdod cofrestru ar gyfer Pridiannau Tir Lleol, gan gynnig modd i ni ddarparu gwasanaeth digidol safonedig symlach. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i hwyluso pwerau ehangach sy'n caniatáu i'r Gofrestrfa Tir fod yr unig awdurdod cofrestru ar gyfer Pridiannau Tir Lleol.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ar yr adeg hon, nad yw unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud i newid model y Gofrestrfa Tir. Fodd bynnag, mae rhai camau y gallwn eu cymryd i wella'r ffordd y mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu. Er enghraifft, bydd datblygu'r gwasanaeth Ystafell Bost Rithwir yn symleiddio prosesau derbyn gwaith achos, gan gynnig llif digidol i'n gweithwyr achos, ac felly'n gwneud y defnydd gorau o'u sgiliau a gwella ein heffeithlonrwydd a'n effeithiolrwydd.

Er ein bod yn cydnabod yr her y bydd newid yn ei chreu i unrhyw fusnes, mae'n rhaid i ni barhau i ganolbwyntio ar ddarparu ein gweithgareddau yn effeithiol o ddydd i ddydd.

Mae'n falch gen i allu dweud ein bod ni wedi llwyddo i wneud hynny. Er i ni ddelio â 22.6m o drafodion y flwyddyn flaenorol, 2012/13, gwelwyd nifer y trafodion yn cynyddu i 26.3 miliwn yn 2013/14. Yn ystod blwyddyn o weithgarwch cynyddol llwyddwyd i gyrraedd 13 o'n 15 targed, gan gynnal mesurau perfformiad allweddol megis ansawdd gwaith cofrestru (98.4 y cant), bodlonrwydd cwsmeriaid (98 y cant), cyflymder gwasanaeth ac argaeledd e-wasanaethau i'n cwsmeriaid (99.7 y cant).

Roedden ni hefyd wedi llwyddo i fodloni ein hamcan effeithlonrwydd, cyfyngiad cyllideb ariannol oedd yn golygu gwneud arbedion o 3.2 y cant mewn termau real, gan ymdopi yr un pryd â chynnydd yn ein gwaith, sy'n adlewyrchu'r awydd i roi mwy o werth i'r cwsmer.

Mae'r targedau ar gyfer 2013/14 hefyd wedi cynnwys y camau cyntaf ar hyd llwybr y Strategaeth Fusnes. Roedd y rhain yn cynnwys rhyddhau'r gwasanaeth am ddim Property Alert. Cafodd y gwasanaeth hwn ei gydnabod yn ddiweddar drwy ennill y wobr gyntaf yn y Real IT Awards yn y categori Arloesi mewn Busnes. Mae'n cynnig gwasanaeth monitro eiddo am ddim i unrhyw un sy'n teimlo y gallai ei eiddo cofrestredig fod mewn perygl o dwyll. Dyma'r mesur atal twyll diweddaraf i ni gyflwyno i helpu i warchod ased mwyaf gwerthfawr pobl - eu cartref.

Roedden ni hefyd wedi bodloni'r amcan o ddatblygu prototeip o'r system Pridiannau Tir Lleol mewn cydweithrediad â grŵp bach o awdurdodau lleol sy'n cefnogi'r cynllun peilot, i dreialu hygyrchedd y gwasanaeth, a chyflwynwyd gwerthusiad o'r prototeip gydag argymhellion i'r Gweinidog ar y camau nesaf. Mae'r dull hwn o weithredu yn golygu y gallwn brofi dewisiadau yn y dyfodol mewn ffordd risg isel, gyda goblygiadau ariannol cyfyngedig.

Roedd ein hincwm o £381.3m yn seiliedig ar y strwythur ffioedd a ddaeth i rym ar 22 Hydref 2012. Er ei fod yn bwriadu lleihau cyfanswm refeniw gan tua 10 y cant, roedd cynnydd yn ein gwaith yn golygu bod rhaid i ni edrych ar incwm ffioedd eto yn ystod y flwyddyn. Daeth Gorchymyn Ffioedd Cofrestru Tir 2013 newydd i rym

ar 17 Mawrth 2014. Er nad oedd hyn wedi rhoi llawer o amser i effeithio ar refeniw am y flwyddyn, bydd yn sicrhau lefel incwm i wariant fwy cytbwys ac ar yr un pryd gynnig cymhelliad o leihad o 50 y cant ar gyfer cofrestriadau electronig. Mae hyn yn rhan o'n strategaeth i ddatblygu'r busnes fel gwasanaeth ar-lein, gan ein helpu i wella cynhyrchedd.

Roedd ein costau gwasanaeth o £227.9m yn sefydlog yn fras wrth i ni ysgwyddo effaith chwyddiant. Y cyfanswm gwariant am y flwyddyn oedd £246.2m, gan adael gwarged o £135.1m. Talwyd y difidend Strategaeth Fusnes o £100m ynghyd â'r difidend blynyddol o £26.7m, sy'n seiliedig ar enillion o 5.9 y cant ar y cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd, i'r Llywodraeth. Ein gwarged a gadwyd oedd £8.5m ac ar ôl enillion ar ailbrisio eiddo y gwarged cynhwysfawr oedd £9.8m.

Mae'n flin gennyf adrodd fod sancsiwn ariannol wedi cael ei osod ar y Gofrestrfa Tir oherwydd bod Cyfarwyddwr Cyllid dros dro yn parhau yn ei swydd, ond oddi ar gyflogres y Gofrestrfa Tir am fwy na chwe mis.

Mae'r sefydliad sydd bellach yn hyderus am ei ddyfodol agos, mewn cyflwr ariannol da. Mae'r gweithlu wedi wynebu'r her o gyrraedd safonau uchel mewn blwyddyn o gynnydd yn y llwyth gwaith, gan gymryd y camau cyntaf tuag at wireddu manteision y Strategaeth Fusnes. Rwy'n diolch iddyn nhw gyd am eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb ac edrychaf ymlaen at wynebu'r her sydd o'm blaenau gan ein bod ni bellach yn gwybod beth fydd ein statws masnachol. Rwy'n gwybod y byddan nhw'n barod i ymateb i'r her.



**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
14 Gorffennaf 2014

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Sefydlwyd Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Cofrestrfa Tir) yn 1862. Rydym yn adran anweinidogol o'r llywodraeth, yn gronfa fasnachol, yn asiantaeth weithredol nad yw'n defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod ein hincwm o ffioedd yn cwmpasu ein holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

O dan ddarpariaethau Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi, y Swyddfa Feteorolegol ac Arolwg Ordnans) 2011, trosglwyddwyd rhai swyddogaethau statudol yn ymwneud â'r Gofrestrfa Tir a oedd wedi'u breinio'n flaenorol yn yr Arglwydd Ganghellor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau.

Mae ein sefydliad yn cynnwys yr Adran Cofrestru Teitl, sy'n delio â'n prif fusnes, a'r Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol sy'n adrannau llawer llai. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau ar wahân ond mae'r cyfrifon wedi'u rhoi ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyfan.

Ein prif swyddogaeth yw cadw'r gofrestr o deitl i dir a phridiannau rhydd-ddaliol a phrydlesol yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau â thir pan fydd tir wedi'i gofrestru. Ar ran y Goron rydym yn gwarantu teitl i ystadau cofrestredig a buddiannau mewn tir.

Mae ein swyddogaethau yn statudol yn llwyr. Nid oes unrhyw bwerau rhagorfreiniol gennym. Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r pŵer i ni ddelio â'r "busnes o gofrestru o dan y Ddeddf hon" a dyma ein prif statud llywodraethol.

Y Prif Gofrestrydd Tir yw pennaeth y Gofrestrfa Tir, wedi'i benodi o dan statud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir yn effeithiol ac yn effeithlon o ddydd i ddydd, yn amodol ar baramedrau ariannol a deddfwriaethol. Rhoddir manylion llawn am rolau a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Gofrestrydd Tir yn ein *Dogfen Fframwaith* 2012.


Gwasanaethwn boblogaeth o fwy na 55 miliwn a hwyluswn un o'r marchnadoedd eiddo a morgais mwyaf gweithgar yn y byd. Mae bron 85 y cant o dirfas Cymru a Lloegr wedi'i gofrestru, sef mwy na 12.9 miliwn o hectarau. Mae ychydig o dan 24 miliwn o deitlau wedi'u cofnodi yn y Gofrestr Tir.

Gweithredwn trwy nifer o swyddfeydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr. Mae ein Prif Swyddfa a Swyddfa Croydon yn rhannu Trafalgar House yn Croydon. Mae ein Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth, swyddfa Plymouth a'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn rhannu Seaton Court yn Plymouth.

# Ffigurau'r flwyddyn hon

## Nifer y gweithwyr


4,462




## Sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid

98%

Stonewall TOP 100 EMPLOYERS




## Nifer y ceisiadau

Cyfanswm 26,254,742

Electronig 21,972,387

## Ceisiadau deliad a gyflwynwyd yn electronig ym mis Mawrth

55.9%


Teitlau cofrestredig

23.8 miliwn



Cynnydd mewn cynhyrchedd

21%



Difidend yn cynnwys difidend arbennig

£126.7m

Gwarged a gadwyd

£8.5m

Incwm

£381.3m

Costau gweithredu

£239.9m



Yr Uwch Swyddog Gweithredol Cofrestru Nick Witting o Swyddfa Croydon yn esbonio pwynt ymarfer y Gofrestrfa Tir i Bennaeth Arolygu a Mapio Data Adran Tiroedd Hong Kong Dominic Siu Wai-ching a’r Prif Arolygydd Tir Law King-wai yn ystod eu hymweliad â Trafalgar House fel gwesteion yr Uned Ryngwladol

# Golwg ar y flwyddyn hon

Prin iawn fydd y Gofrestrfa Tir ei hun yn cyrraedd penawdau'r newyddion ond roedd hi'n teimlo fel pe bai pob papur newydd yng Nghymru a Lloegr yn arwain ar brif stori ein blwyddyn ni: adfywiad y farchnad dai.

Cynyddodd ein llwyth gwaith i'w lefel uchaf ers cwymp y farchnad eiddo yn 2008 wrth i fwy o gyllid morgais helpu i gynyddu nifer y gwerthiannau. Ein hymateb i'r cynnydd dilynol mewn ceisiadau - i fyny 16 y cant flwyddyn ar ôl blwyddyn - oedd cynyddu ein cynhyrchedd gan 21 y cant.

I ymdrechion gwych ein staff y mae'r diolch am hynny - gan gynnwys y staff rhan-amser a gynyddodd eu horiau i ychwanegu at ein capasiti - wedi'i gyfuno â newidiadau mewn arferion gwaith ac arloesi technolegol. Roedd y rhain yn golygu bod ein gweithwyr achos yn gallu treulio llai o amser yn prosesu dogfennau a chymaint o amser â phosibl ar waith gwneud penderfyniadau mwy cymhleth.

Cyhoeddi copïau swyddogol o gofrestri eiddo yw un o'r tasgau dyddiol rydym yn eu canoli. Rydym wedi lleihau cost y gwasanaeth a gwella ei effeithlonrwydd drwy brosesu electronig. O'r 11.5 miliwn o gopïau swyddogol a gyhoeddwyd eleni, roedd 98.2 y cant ohonynt yn electronig.

Yn y cyfamser mae e-wasanaethau Busnes yn golygu y gall cwsmeriaid osgoi'r ystafell bost ac mae mwy ohonynt yn anfon eu ceisiadau atom yn electronig, gan ysgafnhau'r baich arnom ni ac arnyn nhw. Cafodd hyn ei helpu gan ein gwasanaethau electronig oedd ar gael bron yn gyson - rhagorwyd ar ein targed o 99.6 y cant - yn ystod oriau busnes gydag estyniad i 6.30am - 11pm bob dydd.

Ar ddiwedd y flwyddyn dechreuon ni ddefnyddio ein Hystafell Bost Rithwir newydd, a fydd yn y pen draw yn derbyn yr holl geisiadau post gan gwsmeriaid busnes ar gyfer sganio electronig a'u dosbarthu i'r tîm priodol. Mae ein Canolfan y Dinesydd newydd yn Swyddfa Cymru eisoes yn derbyn yr holl geisiadau papur - sef 6,000 y mis ar hyn o bryd - a anfonir gan aelodau o'r cyhoedd.

Nid dim ond y cynnydd yn y farchnad gwerthu eiddo oedd wedi rhoi ein hadnoddau ar brawf yn ystod y flwyddyn. Roedd Deddf Cofrestru Tir 2002 wedi gosod Hydref 2013 fel y dyddiad cau ar gyfer cofrestru buddion gor-redol mewn hawliau maenoraidd ac atebolrwydd atgyweirio cangell, gan greu her ychwanegol oedd yn mynnu ein bod yn dangos hyblygrwydd a galluogrwydd.

Rhoddodd y Ddeddf 10 mlynedd i bobl sydd â buddion mewn eiddo fel hawliau maenoraidd i sicrhau eu bod yn cael eu cadw drwy gofrestru. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf wedi gadael pethau tan yr wythnosau os nad y munudau olaf a derbyniwyd 40,000 o geisiadau yn y diwrnodau yn arwain at y dyddiad cau.

Roedd blaengynllunio, arbenigedd craff a gwaith caled wedi sicrhau ein bod ni'n barod, gyda rhwydwaith o 'ganolfannau rhagoriaeth' ar draws y sefydliad yn cydlynu'r gwaith achos a gweithio goramser dros y penwythnos yn ategu oriau hir y dydd. O ganlyniad cofnodwyd y ceisiadau i gyd mewn da bryd.

Bydden ni'n llawer llai hapus â'r cyflawniadau hyn heb dystiolaeth bod cwsmeriaid yn hapus â'n gwaith. Roedd cyfradd bodlonrwydd a ddilyswyd yn annibynnol o 98 y cant a Sgôr Hyrwyddwr Net o 52 - y ddau yn rhagori ar ein targedau am y flwyddyn - yn dangos ein bod yn cynnal ac yn gwella ar y safonau uchel iawn hyn a osodwyd i'n hunain.

Bydd ein Gorchymyn Ffioedd Cofrestru Tir 2013 yn golygu y caiff ein cwsmeriaid fanteisio ar yr arbedion rydym wedi bod yn eu gwneud drwy'r arferion gwaith mwy effeithlon a'r lleihad parhaus yn ein costau. Y nodwedd fwyaf arwyddocaol oedd haneru'r ffi ar gyfer nifer o'r ceisiadau a gyflwynwyd yn electronig - gan adlewyrchu a rhoi hwb i'n hymdrechion i ddarparu cynifer â phosibl o'n gwasanaethau yn ddigidol.

Aeth ein menter flaenllaw Gwasanaeth Cofrestru Dogfen electronig (e-DRS) o nerth i nerth, gan ennill clod yn y Real IT Awards pan ddaeth yn ail yn y categori Darparu Gwerth Busnes.

> "Mae'r hyn y mae'r Gofrestrfa Tir yn ei wneud yn enghraifft berffaith o sut y gallwch chi gynnig gwasanaeth cyflymach a gwell drwy fuddsoddi mewn technoleg ddigidol."
>
> **Syr Bob Kerslake**
> Pennaeth y Gwasanaeth Sifil

Roedd cyfres o welliannau yn golygu erbyn diwedd y flwyddyn fod cwsmeriaid busnes yn gallu defnyddio e-DRS i gofrestru gwerthu neu forgeisio unrhyw eiddo cofrestredig a chofrestru ac estyn prydlesi ar unrhyw eiddo cofrestredig. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd 3,680 o 'ddeliadau' ar gyfartaledd - ceisiadau sy'n effeithio ar deitl cofrestredig - yn ein cyrraedd trwy e-DRS bob dydd.

Un o'r gwasanaethau newydd mwyaf uchel ei broffil a gafodd ei lansio oedd ein gwasanaeth am ddim MapSearch, fersiwn ar-lein chwiliadwy o'n map mynegai. Drwyddo gall cwsmeriaid busnes leoli unrhyw eiddo cofrestredig yng Nghymru a Lloegr heb orfod gwneud cais i ni am yr wybodaeth.

Datblygwyd MapSearch drwy ymgynghori a chydweithio'n agos â'n cwsmeriaid. Mae eu hawgrymiadau a'u hadborth yn rhan annatod bellach o'r gwaith o ddatblygu a gwella ein holl gynhyrchion a gwasanaethau newydd.

"Rydyn ni wedi bod yn defnyddio MapSearch ers sawl wythnos bellach, ac mae'n hollol anhepgor erbyn hyn."

**David Roberts**
Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Morgoed Estates Limited

Rydym wedi sefydlu cyfleuster newydd yn Swyddfa Coventry lle mae'r offer diweddaraf un yn monitro adwaith cwsmeriaid sydd wedi gwirfoddoli i dreialu ein prototeipiau electronig. Mae cronfa ddata newydd yn ein galluogi i gysylltu â chwsmeriaid ac ymateb iddynt yn fwy effeithlon a gwybodus nag yn y gorffennol, ac mae deunyddiau hyfforddi wedi cael eu trosi i ffurf fideo i gynyddu hygyrchedd.

Rydym yn defnyddio methodoleg Agile mwy a mwy i greu cynhyrchion a gwasanaethau newydd. Yn lle amlinellu'r holl ofynion ar gyfer prosiect cyn dechrau'r gwaith, mae Agile yn datblygu'r gwaith drwy gyfres o 'wibiadau' sy'n dod â hyblygrwydd i'r broses. Mae'r pwyslais ar ateb anghenion y cwsmer yn hytrach na bodloni ein prosesau busnes mewnol ein hunain.

Defnyddiwyd Agile i adeiladu MapSearch a Property Alert, sef gwasanaeth am ddim sy'n rhybuddio am y posibilrwydd o weithgarwch amheus ar gofrestr eiddo er mwyn gallu gweithredu'n brydlon. Roedd y gwasanaeth yn boblogaidd ar unwaith, ac roedd 4,600 o bobl wedi cofrestru erbyn diwedd y flwyddyn. Cafodd y gwasanaeth gydnabyddiaeth genedlaethol fel enillydd y categori Arloesi mewn Busnes yn y Real IT Awards.

Cafodd ein hymdrechion atal twyll eu cydnabod eto drwy gael ein henwebu yn y Fighting Fraud Awards am ein gwaith yn codi ymwybyddiaeth o dwyll. Roedd cyfanswm ein taliadau indemniad net i lawr o'i gymharu â llynedd ac yn ychydig dros £9 miliwn. Cafodd y ffigur hwn ei helpu gan y £2 filiwn a adenillwyd yn ystod ein blwyddyn orau erioed ar gyfer adennill arian o dan ein hawliau digolledu, gan gynnwys ymdrech benderfynol i adennill un swm o £1.2 miliwn.

"Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud gwaith arbennig ar ganfod ac atal twyll eiddo."

**Mike Robinson**
Swyddog Adrannol Atal Twyll, Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

Cafodd rhyddhau setiau newydd o ddata am ddim ei hysbysu drwy gyhoeddi ein rhestr setiau data sy'n ceisio annog defnyddwyr posibl i feddwl yn greadigol am y setiau data sydd gennym ac y gallem eu cyhoeddi.

Dilynwyd hyn gan gyfres o ryddhau data o'r fath: ein tablau Mynegai Prisiau Tai hanesyddol, ein data pris a dalwyd hanesyddol a'r Ddeddf Cofrestri 1862. Roedd ein Polygonau Mynegai INSPIRE ar gael i'w llwytho i lawr, gan gynnig modd i gwsmeriaid fewnbynnu'r wybodaeth gofrestru yn uniongyrchol i'w systemau mapio eu hunain.

Dangoswyd cymaint roedden ni am i entrepreneuriaid a dadansoddwyr wneud defnydd creadigol a phroffidiol o'n data drwy gynnal her data agored a chynnig gwobrau o £3,000 am y syniadau gorau. Mewn seremoni wobrwyo gwobrwywyd syniadau'r cwmni peiriant chwilio Adzuna a'r datblygwr meddalwedd Dan Hilton. Gosodwyd her debyg yn fewnol i staff a chynigiwyd syniadau yr un mor greadigol.

"Mae diwylliant gwych yma ar gyfer data agored."

**Heather Savory**
Cadeirydd Grŵp Defnyddwyr Data Agored

Codwyd ychydig dros £3.9 miliwn o werthu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau masnachol a chafodd y dewis ei estyn ymhellach drwy lansio Online Owner Verification, sy'n caniatáu i gwsmeriaid ddilysu eu data perchnogaeth eiddo yn erbyn ein cofnodion.

Mae ein Strategaeth Fusnes wedi ein herio i ehangu cwmpas ein gwaith drwy gymhwyso ein harbenigedd i gofrestri eraill. Gweithredwyd â phwrpas ar hyn ar ôl i'n cyngor ymgynghorol nodi bod darparu gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol yn faes lle y gallem ni wneud gwahaniaeth go iawn.

Ar ôl gweithio gyda 10 awdurdod lleol ar brosiect peilot lansiwyd ymgynghoriad i ehangu ein pwerau i'n galluogi i gymryd drosodd y swyddogaeth statudol ar gyfer dal a chynnal Cofrestr Pridiannau Tir Lleol gyfansawdd ar gyfer Cymru a Lloegr a darparu chwiliadau Pridiannau Tir Lleol. Drwy gynnwys hwn yn Araith y Frenhines mae'r Llywodraeth wedi dangos ei bwriad i weithredu yn y maes hwn.

Roedd y fenter hon yn un ffordd yn unig i ni ehangu ein gorwelion a cheisio cyfleu ein harbenigedd, ein syniadau a'n brwdfrydedd. Defnyddiwyd ffenestr siop swyddfeydd yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yng nghanol Llundain ar gyfer arddangosfa yn esbonio pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud. Roedd defnydd creadigol o'r cyfryngau cymdeithasol wedi ein helpu i gynyddu'r nifer a'r ystod o bobl sy'n cyfathrebu â ni yn gyson.



Arddangosfa yn swyddfeydd yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yng nghanol Llundain yn esbonio pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud


Pennaeth y Rhaglen Ddata Andrew Trigg yn cyflwyno gwobr ei chwmni i Jenna Brown o Adzuna fel enillydd ein her data agored




Gwirfoddolwyr ac aelodau o bwyllgor trefnu Diwrnod Mabolgampau 2013 yn chwifio'r faner yn Plymouth




Cerddwyr brwd Swyddfa Hull oedd y tîm buddugol yn yr Her Taith Gerdded Rithwir a drefnwyd gan yr Elusen Gweision Sifil

Roedd siaradwyr o'r Gofrestrfa Tir wedi ymweld ag eraill i esbonio sut rydym ni'n darparu ein gwasanaethau a'n mentrau data a digidol. Roedd y Pennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol, Julie Barry, a'r Prif Swyddog Gwybodaeth Ddaearyddol Andrew Trigg wedi rhoi cyflwyniadau yng Nghynhadledd Flynyddol Banc y Byd ar Dir ac Eiddo yn Washington DC. Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Alasdair Lewis hefyd ar daith yn gyson yn ei rôl ddwy flynedd fel Llywydd Cymdeithas Cofrestrfa Tir Ewrop.

Roedd Uned Ryngwladol y Gofrestrfa Tir wedi rhannu ei harbenigedd â chymheiriaid dramor, gyda Phennaeth Datblygu Busnes Rhyngwladol Emma Vincent yn cymryd rhan mewn cenhadaeth fasnach i Bencadlys yr African Development Bank yn Tunisia o dan nawdd UK Trade & Investment. Daeth y byd i'n gweld ni hefyd: croesawyd ymweliadau astudio o Cyprus, Bostwana, Gambia, Hong Kong, Malaysia, Seland Newydd, Nigeria, Rwsia a De Corea.

Yn ystod cyfnod o ansicrwydd mawr am ein dyfodol roedd y sgôr ymgysylltu â staff yn parhau yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r ail garreg filltir strategol, ynghyd â dyddiad lansio Property Alert, lle na lwyddom i gwrdd â'r targed a osodwyd. Ar gyfer y flwyddyn nesaf rydym ni wedi creu dangosydd perfformiad allweddol newydd a fydd yn mesur pa mor gysylltiedig y mae pobl yn teimlo â nodau a gwerthoedd y sefydliad, yn ogystal â'u hiechyd a'u lles. Yn y cyfamser mae digon o arwyddion cadarnhaol eu bod nhw wedi ymgysylltu â'u gwaith, eu cydweithwyr a'u cwsmeriaid.

Mae ein menter Cyfleoedd i Bawb yn cynnig cyfle i bobl ehangu eu gorwelion drwy ymgymryd â phrosiect neu rôl newydd yn y sefydliad. Mae rhaglen newydd Arweinwyr y Dyfodol yn adnabod unigolion dawnus sydd â'r potensial i gyrraedd brig y sefydliad, gyda phump yn cael eu dewis yn y garfan gyntaf.

Mae absenoldeb salwch wedi parhau i ddisgyn a chafodd ein hymdrechion i annog 'lles' yn y gwaith eu cydnabod drwy ennill Gwobr Gweithle Iach Simplyhealth. Roedd timau'r Gofrestrfa Tir wedi dangos eu hawydd am awyr iach ac ymarfer corff drwy ddominyddu yn yr Her Taith Gerdded Rithwir yr Elusen Gweision Sifil.

Enillodd ein hymgyrch Respect - sef hybu amgylchedd gwaith lle mae gwahaniaeth yn cael ei werthfawrogi - y Wobr Diwylliant Cynhwysol yng Ngwobrau Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant (ENEI) 2013. Hefyd cynyddwyd cyfradd datgan staff ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd gan bron i 15 y cant ac ailymunwyd â thabl cynghrair Stonewall o'r 100 Cyflogwr Gorau ar gyfer staff lesbïaidd, hoyw a deurywiol yn rhif 72.

"Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod ymrwymiad sefydliadau i fod yn weithleoedd amrywiol a chynhwysol, gan ddathlu'r timau a'r unigolion sy'n gwneud gwir wahaniaeth."

**Denise Keating**, Prif Weithredwr, ENEI

Adnewyddwyd ein traddodiad - a oedd wedi cilio ers cwymp y farchnad eiddo - o recriwtio doniau newydd i'n Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth drwy gynnig lleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr o Brifysgol Plymouth. Mae dau aelod o'r garfan gyntaf yn dechrau swyddi amser llawn gyda ni ym mis Gorffennaf.

Mae pobl ar draws y sefydliad wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad at eu cymunedau ac achosion da yn y wlad hon a thramor drwy godi arian a gwirfoddoli. Roedd bron pob swyddfa yn y sefydliad wedi cynnal digwyddiad Bore Coffi Mwyaf y Byd, gan godi cyfanswm o £4,300 ar gyfer Macmillan Cancer Support. Ond dim ond cyfran fach yw hon o'r swm a gasglwyd i elusennau yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr Wythnos Hinsawdd wedi ein herio i feddwl yn greadigol ynghylch sut i leihau allyriadau carbon gyda gweithgorau mewn nifer o swyddfeydd lleol yn cyfrannu eu syniadau. Ar draws y sefydliad rhagorwyd ar ein targed i dorri allyriadau carbon gan 5 y cant dros y flwyddyn, gyda lleihad o 9.9 y cant

Roedd ein traddodiadau cymdeithasol a chwaraeon yn parhau'n gryf gyda llwyddiant mewn cystadlaethau golff, pysgota, y celfyddydau a ffotograffiaeth a chwis. Roedd penwythnos cerdded yn y Peak District wedi denu pobl o bob rhan o'r sefydliad, a hefyd fersiwn unigryw o'r diwrnod mabolgampau blynyddol gyda rasio cychod draig a chaiacio yn cymryd lle pêl-droed ac athletau ar lan y môr yn Plymouth.



# Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid


## Refeniw



Roedd ein cyfanswm refeniw yn £381.3 miliwn (2012/13: £347.2m), i fyny 9.8 y cant neu £34.1m flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae maint trafodion, ar sail mynegai, o 11.7m uned (2012/13: 9.9m uned) i fyny 18 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. (Mae hyn yn cynnwys mwy o ddiweddariadau cofrestr swmpus cyfnewidiol). Roedd ein prif refeniw yn corffori strwythur ffioedd newydd, yn weithredol o 22 Hydref 2012, sy'n ceisio gostwng ffioedd gan 10 y cant ar gyfartaledd ond cafodd y gostyngiad ei wrthbwyso gan gynnydd ym maint trafodion. Roedd Gorchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013 newydd wedi gosod gostyngiad prisiau o 50 y cant i gymell cofrestriadau safonol electronig. Daeth i rym ar 17 Mawrth 2014 a chael effaith gyfyngedig ar y canlyniadau ariannol ar gyfer 2013/14.

## Refeniw: tuedd chwe blynedd

£'000




## IBNR

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y ddarpariaeth mewn perthynas â hawliadau indemniad y gwyddys eu bod wedi 'codi ond heb eu hadrodd' (IBNR). Mae'r ddarpariaeth hon, a esbonnir yn nodyn 1.18 ac 17.2 ar y cyfrifon, yn amcangyfrif sy'n debygol o symud i fyny ac i lawr yn y blynyddoedd dilynol.

## Costau gweithredu

Mae costau gweithredu o £239.9m (2012/13: £238.3m) yn cynnwys costau cyflogau o £154.1m (2012/13: £155.8m). Gostyngodd gostau cyflogau gan £1.7m gan adlewyrchu enillion effeithiolrwydd drwy amsugno chwyddiant cyflogres a nifer llai o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, sef 3,999 (2012/13: 4,060) erbyn mis Mawrth. Mae'r costau yn cael eu gostwng gan gredyd o £10.9m yn dilyn gostyngiad yn y Gronfa Indemniad ac yn cael eu cynyddu gan y cynnydd o £8.0m yn y ddarpariaeth IBNR, a ystumiodd alldro cyffredinol.

## Indemniad

Roedd taliadau indemniad yn gyfanswm o £11.2m (2012/13: £11.9m) ond roedd taliadau yn codi o dwyll a ffugio o £6.4m ac eithrio costau cysylltiedig (2012/13 £4.4m ac eithrio costau cysylltiedig), y cynnydd yn codi o un achos mawr a ystumiodd yr alldro am y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn adenillwyd £2.2m o dan ein hawliau digolledu. Mae rheolaethau yn ymwneud ag atal twyll a'n mesurau atal twyll yn parhau i gael eu gwella i ddiogelu cwsmeriaid yn erbyn twyll cofrestru. I'w nodi'n arbennig y flwyddyn hon lansiwyd Property Alert, gwasanaeth am ddim sy'n cynnig modd i berchnogion eiddo a allai fod yn bryderus am dwyll gael rhybudd am newidiadau mawr i'w teitl cofrestredig (www.landregistry.gov.uk>Public>Property Alert).

## Costau eraill

Gostyngodd gostau ar y Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig (ATP) a gwblhawyd i £1.6m, (2012/13: £10.5m). Cafodd costau eraill eu gwrthbwyso gan incwm buddsoddi o £1.6m (2012/13: £1.5m). Roedd taliadau prydles cyllid o £0.9m (2012/13: £0.9m) a chostau amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth a ddaeth ar-lein yn 2010/11 o £5.4m (2012/13: £4.1). Y cyfanswm costau yw £246.2m (2012/13: £248.4m). Mae hyn yn ostyngiad o 0.9 y cant. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu tuedd ac ymdrech barhaus i sicrhau effeithlonrwydd, ac yn 35.7 y cant cronnus o 2008/9 ar gost gwasanaeth, gan anwybyddu chwyddiant. Y gwarged cyn difidend ar gyfer y flwyddyn yw £135.1m (2012/13: £98.8m).

Mae'r gwarged hwn yn adlewyrchu'n bennaf y cynnydd ym maint y gwaith yn ystod y flwyddyn, y gostyngiadau cost flwyddyn ar ôl blwyddyn a chredyd o'r Gronfa Indemniad a oedd wedi lleihau gwariant. Ein henillion ar gyfalaf a ddefnyddiwyd oedd 30.7 y cant (2012/13: 23.4 y cant), gan adlewyrchu effaith y gostyngiadau cost ATP hirdymor a'r gorchymyn ffi newydd a weithredwyd yn ystod 2012/13, a oedd yn gymwys ar gyfer y rhan fwyaf o'r flwyddyn ariannol. Cafodd Gorchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013, sy'n cynnig cymhelliant pris o 50 y cant ar gyfer anfon cofrestriadau electronig, ei gweithredu ar 17 Mawrth 2014 gan olygu nad oedd digon o amser i roi sylw i'r gwarged yn ystod y flwyddyn.

## Difidendau

Mae difidend mwy o £26.7m (2012/13: £26m) yn seiliedig ar enillion ar gyfalaf a ddefnyddiwyd o 5.9 y cant (2012/13: 6.3 y cant). Yn ogystal talwyd difidend Strategaeth Fusnes o £100m, gan adael gwarged a gedwir o £8.5m.

## Datganiad o'r sefyllfa ariannol

Mae'r datganiad o sefyllfa ariannol yn parhau'n gryf a chynyddodd asedau net i £444.4m (2012/13: £435.5m). Yr all-lif arian net oedd £7.9m gan adlewyrchu'r taliad arian o'r difidend Strategaeth Fusnes £100m, difidend 2012/13 ac £20m o'r difidend £26.7m 2013/14. Y gweddill arian wrth gau oedd £464.6m (2012/13: £472.6m).

## Asedau anghyfredol

Cafodd yr ystad ei phrisio'n allanol gan y Swyddfa Brisio. Y symudiad cyffredinol oedd gostyngiad mewn gwerth o £0.5m.

Gwerth ein hystad yn y cyfrifon, yn dilyn gwaredu'r hen adeilad Swyddfa Stevenage, Brickdale House, yw £76.5m.

Ein cyfanswm gwariant cyfalaf oedd £2m.

## Y Gronfa Indemniad a darpariaeth IBNR

Mae gwerth y ddarpariaeth Cronfa Indemniad y flwyddyn hon wedi gostwng i £11.2m (2012/13: £22.1m) yn dilyn adolygiad allanol gan Lane Clark & Peacock, ein hactiwarïaid. Effaith y gostyngiad hwn yn y ddarpariaeth oedd cynnydd o £10.9m yn ein gwarged gweithredu. Cynyddodd y ddarpariaeth IBNR o £45.7m gan £8.0m ac yn £53.7m wrth gau ar 31 Mawrth 2014, gan leihau'r gwarged gweithredu gan £8.0m.

## Rheolaeth y Trysorlys

Mae rheoli asedau hylifol yn cael ei lywodraethu gan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993, y Gorchymyn Asedau Ychwanegol 1996, y Gorchymyn Estyn a Diwygio 2003 a Dogfen Fframwaith 2012. Mae gweddillion arian anweithredol yn cael eu cadw mewn cyfrifon sy'n dwyn llog yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol gyda'r gweddill yn cael ei gadw gyda banc masnachol y DU.

## Perfformiad

Cyrhaeddwyd 13 o'n 15 Dangosydd Perfformiad Allweddol yn ystod blwyddyn o ansicrwydd gyda chynnydd ym maint y gwaith yn sylweddol uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd. Am fanylion gweler adran d o'r adroddiad Strategol (tudalen 30).

## Gweithgareddau yn y dyfodol: y Strategaeth Fusnes a'r Cynllun Busnes

Mae ein gweithgareddau yn y dyfodol wedi'u seilio ar y Strategaeth Fusnes a gafodd ei chymeradwyo gan weinidogion yn Rhagfyr 2012. Mae'r strategaeth hon, sydd wedi'i hymgorffori bellach o fewn ein Cynllun Busnes cyffredinol ar gyfer 2013-18, yn cynnwys ein hamcanion a gweledigaeth newydd sy'n amlinellu'r uchelgais i sicrhau newid mawr gan gynnwys:

- cynnydd o 60 y cant mewn cynhyrchedd
- 99 y cant o wasanaethau gwybodaeth a 60 y cant o wasanaethau cofrestru i'w cyflwyno'n electronig erbyn 2017/18
- digideiddio data mewn 354 o awdurdodau lleol - ehangu rôl y Gofrestrfa Tir a gwneud trawsgludo yn haws ac yn rhatach
- uwchraddio ein systemau cofrestru a gwybodaeth ddaearyddol (GI) a etifeddwyd
- gwnewch y defnydd gorau posibl o ddata'r Gofrestrfa Tir er budd yr economi ehangach
- lleihau costau rhedeg gan £40 miliwn y flwyddyn.

Cyhoeddir y targedau hyn yn ein Cynllun Rheoli Blynyddol 2013/14 sydd ar gael ar ein gwefan: www.landregistry.gov.uk/media/about-us/annual-reports. Mae'r targedau yn y Cynllun Rheoli Blynyddol ar gyfer 2014/15 wedi cael eu cyhoeddi yn y Senedd drwy ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn dilyn adolygiad gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr, cyfranddaliwr y Llywodraeth.

## Y prif dueddiadau sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol

Y prif duedd sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol yw lefel gweithgarwch y farchnad dai. Caiff hyn ei adolygu'n gyson gan ddefnyddio amryw o ddangosyddion o ffynonellau mewnol ac allanol. Ein rhagdybiaeth ar gyfer y flwyddyn 2014/15 yw y bydd gweithgaredd yn 11.6m uned gan gynnwys diweddariadau cofrestr swmpus o 1.2m uned. Mae hyn yn uwch na'r gweithgarwch arfaethedig ar gyfer 2013/14 (9.5m uned gan gynnwys 0.3m o ddiweddariadau cofrestr swmpus) ond yn is na'r alldro 2013/14 o 11.7m uned. Mae'r rhagolygon refeniw wedi'u hadeiladu ar y maint o waith i gadw gwarged cyn difidend o £38m, ac eithrio'r ail ddifidend Strategaeth Fusnes o £100m.

## Cyfarwyddiaethau a buddiannau arwyddocaol

Roedd ein Cadeirydd Anweithredol Mark Boyle yn aelod o'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr tan Fedi 2013. Prif amcan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr yw bod yn gyfranddaliwr effeithiol cyffredinol i'r busnesau a berchenogir neu a berchenogir yn rhannol gan y Llywodraeth a rheoli ymyraethau'r llywodraeth yn y sector preifat er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i'r trethdalwr. Nid yw'n cymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr sy'n ymwneud â'r Gofrestrfa Tir. Mae manylion am fuddiannau cyfarwyddwyr ar gael yn y Brif Swyddfa.

## Cysylltiadau allweddol

Rydym yn cynnal cysylltiad agos â'n cyflenwyr allweddol drwy ein prosesau caffael a rheoli contractau. Mae ein prif gyflenwyr yn cynnwys Steria, TNT, Carillion ac IBM. Mae perfformiad y prif gyflenwyr hyn yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau bod y gwasanaeth dan gontract yn cael ei ddarparu'n effeithiol, bod cyfleoedd gwella yn cael eu ceisio a'n bod yn parhau i gael gwerth da am arian. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos â Steria i ddadagregu'r Gwasanaeth Seilwaith TG Gwasgaredig (DITI) mewn ffordd adeiladol a systematig i sicrhau pontio llwyddiannus i ddarpariaeth arall.

Mae ein prif gyflenwyr yn cael eu monitro yn unol â'r risg strategol berthnasol ac rydym yn cymryd camau pellach i wella ein gweithgarwch rheoli contractau llyfr agored.

Rydym yn parhau i wneud defnydd cynyddol o gontractau trawslywodraethol, yn unol â pholisi caffael Swyddfa'r Cabinet.

## Pensiynau

Ceir manylion sy'n dangos sut y caiff costau a rhwymedigaethau pensiwn eu trin yn y cyfrifon yn nodiadau 1.8 a 4.4. ar y cyfrifon, ac yn yr adroddiad tâl.

## Taliadau

Cydymffurfiwn â Deddf Hwyrdalu Dyled Masnachol (Llog) 1998 a'r Cod Ymarfer Talu'n Well. Yn ystod y flwyddyn talwyd 95.4 y cant o anfonebau diamheuol a dderbyniwyd gan gyflenwyr o fewn pum diwrnod gwaith.

## Prif risgiau ac ansicrwydd

Rydym yn wynebu heriau a risgiau i gyflawni ein hamcanion strategol a busnes. Mae'r prif risgiau strategol ar hyn o bryd yn ymwneud â thwyll cofrestru a chyfanrwydd ein cofrestr. Mae'r risg i'n Strategaeth Fusnes yn ymwneud â gwireddu'r buddion a gynlluniwyd a risg sy'n ymwneud â phobl a'r gallu i bontio, gyda'r effaith bosibl ar fusnes yn ôl yr arfer.

Mae risgiau strategol yn cael eu rheoli ar lefel Bwrdd y Gofrestrfa Tir. Mae risg i'r Gyfarwyddiaeth yn cael ei rheoli gan bob cyfarwyddwr. Mae risg i raglenni a phrosiectau yn cael ei rheoli o fewn y paramedrau a osodwyd ar gyfer y byrddau perthnasol. Mae risg i wybodaeth yn cael ei rheoli yn unol â chanllawiau CESG (yr awdurdod technegol cenedlaethol ar gyfer sicrwydd gwybodaeth). Mae risg yn cynyddu os yw'r archwaeth risg wedi'i ragori a gallai effaith andwyol ar dargedau, enw da neu weithrediadau godi.

## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol (C&AG). Y gost ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â'r archwiliad statudol ar gyfer 2013/14 oedd £65,000 (2012/13: £67,500).

**Stephen Park**
Cyfarwyddwr Cyllid
14 Gorffennaf 2014





# Adroddiad strategol

## a) Strategaeth

Cymeradwywyd ein Strategaeth Fusnes gan y Gweinidog yn Rhagfyr 2012. Mae'r amcanion wedi'u hamlinellu o fewn y datganiad llywodraethu yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Cyhoeddwyd manylion pellach am Amcanion y Strategaeth Fusnes yn y Cynllun Rheoli Blynyddol 2013/14 a amlinellodd y 12 targed strategol manwl dros y cynllun pum mlynedd.

www.landregistry.gov.uk>About us>Annual reports and business plans>Management plan 2013/14

Ar gyfer 2014/15 cyhoeddwyd ein dangosyddion perfformiad allweddol gerbron y Senedd ar 8 Mai 2014.

## b) Newidiadau pwysig

Mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau wedi cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos er mwyn i'r busnes o gofrestru tir ganolbwyntio mwy ar gyflenwi a chael mwy o hyblygrwydd i weithredu. Roedd yn cynnwys cynigion i greu cwmni newydd y byddai'r cyfrifoldeb am gyflenwi gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo iddo a chael Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir ar wahân a fyddai'n perfformio swyddogaethau rheoleiddio yn bennaf.

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau nad yw unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud i newid model gweithredu'r Gofrestrfa Tir ar hyn o bryd.

Roedd y Gofrestrfa Tir hefyd wedi ymgynghori ar bwerau ehangach i fod yn unig awdurdod cofrestru ar gyfer Pridiannau Tir Lleol, gan gynnig modd i ni ddarparu gwasanaeth digidol symlach. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i hwyluso'r pwerau ehangach hyn.

# c) Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adroddiad cynaliadwyedd hwn yn dangos perfformiad y Gofrestrfa Tir yn erbyn gofynion Ymrwymiadau Glasu'r llywodraeth a'r System Rheolaeth Amgylcheddol.

## Penawdau

| | Cyflawni | Targed | Ar darged? |
|---|---|---|---|
| Carbon | lleihad o 36% | lleihad o 25% | Ie |
| Gwastraff | lleihad o 51% | lleihad o 25% | Ie |
| Dŵr | lleihad o 37% | lleihad o 25% | Ie |

## Crynodeb o berfformiad

Mae gwaith yn parhau tuag at gyflawni targedau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth erbyn y dyddiad targed sef Mawrth 2015. Ar hyn o bryd rydym yn cyflawni'r canlynol yn erbyn gwaelodlin cyfnod adrodd Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth, sef 2009/10.

- 36 y cant o leihad mewn carbon.
- 51 y cant o leihad mewn gwastraff.
- 37 y cant o leihad yn y defnydd o ddŵr.

Cyflwynwyd dangosydd perfformiad allweddol (DPA) yn 2012 sy'n uniongyrchol gysylltiedig â pherfformiad cynaliadwyedd. Y nod oedd lleihau allyriadau carbon gan 5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym wedi parhau â'r DPA cynaliadwyedd hwn yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'r wybodaeth perfformiad isod yn unol â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.

| **Maes** | | **Perfformiad** | |
|---|---|---|---|
| | | **Gwirioneddol** | **Targed lleihad o 25% 2015** |
| **Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, pob maes o fewn y cwmpas** | Allyriadau carbon (tunelli) | 9,128 o allyriadau gwirioneddol | 10,745[1] |
| | Gwariant (£'000) | 1,810,099 | |
| **Gwastraff** | Defnydd (tunelli) | 959 | 1,484[1] |
| | Gwariant (£'000) | 290,817 | |
| **Dŵr** | Defnydd ($m^3$) | 36,037 | 42,911 |
| | Gwariant (£'000) | 228,430 | |

1. Ailosodwyd y targed yn unol â sylfeini Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.

## Crynodeb o strategaeth y dyfodol

Rydym yn parhau i gydweithio â'n prif bartneriaid busnes tuag at gyflawni targedau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth, gan sicrhau gwelliannau mewn gweithredu a rheoli adeiladau a'n seilwaith TG. Adolygwyd ein harolygon cyflwr adeiladau a chafodd gwaith cynaliadwyedd ei nodi mewn perthynas â newid boeleri a gwelliannau yn y Systemau Rheoli Adeiladau. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd a bydd yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn unol â gofynion Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.

## Carbon

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli o CO2 cyfatebol)** | | |
| Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer cwmpas 1 a 2 | 8,404 | 10,447 |
| Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | 2,780 | 2,265 |
| Cyfanswm allyriadau net ar gyfer cwmpas 1 a 2 (h.y. wedi dileu elfennau adnewyddadwy) | 5,624 | 8,182 |
| Allyriadau gros cwmpas 3 teithio[1] | 724 | 893 |
| **Cyfanswm gros yr allyriadau a gofnodwyd** | **9,128** | **11,340** |
| **Dangosyddion anariannol (mWh)** | | |
| Trydan: wedi'i brynu (grid, gwres a phŵer cyfunedig, ac anadnewyddadwy) | 12,200 | 15,943 |
| Trydan: adnewyddadwy | – | – |
| Nwy | 8,355 | 11,567 |
| Ffynonellau ynni eraill | – | – |
| **Cyfanswm ynni** | **20,555** | **27,510** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | |
| Gwariant ar ynni | 1,810 | 2,043 |
| Gwariant ar gredydau achrededig (e.e. Cronfa Credydau Carbon y Llywodraeth) | – | – |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 1,240 | 1,127 |

1. Mae allyriadau gros cwmpas 3 yn cynnwys yr holl deithio busnes sydd ar gael.

Mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

Mae'r tabl drosodd yn dangos y tuedd a'r cyflawniad hyd yma ar gyfer y Gofrestrfa Tir mewn perthynas â'r lleihad mewn allyriadau carbon tuag at darged Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth o 25 y cant erbyn Mawrth 2015.

Nodyn: Cawsom ein cynghori gan ddefnyddwyr gwasanaeth cyffredin Arolwg Ordnans eu bod nhw wedi cymryd cyfrifoldeb perchnogaeth ac adrodd ar gyfer y carbon a gynhyrchir gan eu defnydd o drydan yn ein lleoliad canolfan ddata. Mae hyn yn cyfateb i 954,494kWh ac yn arwain at ddileu 461 tunnell o garbon o'n gofynion adrodd i'r llywodraeth.

| | Targed allyriadau nwyon tŷ gwydr flwyddyn ar ôl blwyddyn | Rhagolygon allyriadau nwyon tŷ gwydr (gan gynnwys cymhellion) | Rhagolygon canran lleihad | Nwyon tŷ gwydr gwirioneddol (targed allyriadau CO2) | Canran lleihad gwirioneddol cronnus |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009/10 (gwaelodlin) | 14,326.6 | 14,326.6 | 0% | 14,326.6 | 0% |
| 2010/11 | 13,610.3 | 14,326.6 | 0% | 13,099.0 | –9% |
| 2011/12 | 12,893.9 | 14,326.6 | 0% | 11,211.0 | –22% |
| 2012/13 | 12,177.6 | 14,326.6 | 0% | 11,340.0 | –21% |
| 2013/14 | 11,461.3 | 14,326.6 | 0% | 9,128.0 | –36% |
| 2014/15 | 10,745.0 | 13,176.6 | –8% | Amh | - |

## Gwastraff

| | | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | | | |
| Gwastraff peryglus | | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | Gwastraff tirlenwi | 101 | 379 |
| | Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu | 858 | 1,042 |
| | Ynni o wastraff | – | – |
| | **Cyfanswm gwastraff sy'n codi** | **959** | **1,421** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | |
| Gwastraff peryglus | | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | Gwastraff tirlenwi | 144 | 197 |
| | Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu | 146 | 218 |
| | Ynni o wastraff | – | – |
| | **Cyfanswm costau gwastraff** | **290** | **415** |

Mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

Mae'r tabl gyferbyn yn dangos y tuedd a'r cyflawniad hyd yma ar gyfer y Gofrestrfa Tir mewn perthynas â'r lleihad mewn gwastraff sy'n codi tuag at darged Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth o leihad o 25 y cant erbyn Mawrth 2015.

Fel y dangosir gan yr wybodaeth gyferbyn rydym yn cyflawni 51 y cant ar hyn o bryd, sy'n rhagori ar y lleihad gofynnol o 25 y cant.

Mae gwastraff yn parhau i gael ei reoli drwy'r contract rheoli cyfleusterau (Carillion) â SITA a'r contract papur dolen-gaeedig Banner a reolir gan y Tîm Rheoli Cyfleusterau Canolog.

Rydym yn parhau i ailgylchu tua 85 y cant o'r gwastraff a gynhyrchiwn. Er nad oes gan y Llywodraeth darged ar hyn o bryd ar gyfer ailgylchu derbynnir yn gyffredinol mai'r targed blaenorol o 75 y cant ddylai fod y meincnod.

| | Targed gwastraff flwyddyn ar ôl blwyddyn (tunelli) | Rhagolygon gwastraff (gan gynnwys cymhellion) | Rhagolygon canran lleihad | Gwastraff gwirioneddol (tunelli) | Canran lleihad gwirioneddol cronnus |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009/10 (gwaelodlin) | 1,979.0 | 1,979.0 | 0% | 1,979.0 | 0% |
| 2010/11 | 1,880.1 | 1,979.0 | 0% | 1,443.0 | -27% |
| 2011/12 | 1,781.1 | 1,979.0 | 0% | 1,689.0 | -15% |
| 2012/13 | 1,682.2 | 1,979.0 | 0% | 1,421.0 | -28% |
| 2013/14 | 1,583.2 | 1,679.0 | -15% | 959.0 | -51% |
| 2014/15 | 1,484.3 | 1,679.0 | -15% | Amh | - |

## Dŵr

| | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig)** | | |
| **Defnydd** | | |
| Wedi'i gyflenwi | 36,037 | 31,230 |
| Wedi'i dynnu | – | – |
| **Cyfanswm defnydd** | **36,037** | **31,230** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | |
| **Cyfanswm costau cyflenwi** | **228** | **236** |

Mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

Mae'r tabl drosodd yn dangos y tuedd a'r cyflawniad hyd yma ar gyfer y Gofrestrfa Tir mewn perthynas â'r lleihad yn y defnydd o ddŵr tuag at gyflawni targed Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth o leihad o 25 y cant erbyn Mawrth 2015.

Fel y dangosir gan yr wybodaeth drosodd rydym yn cyflawni 37 y cant ar hyn o bryd, sy'n rhagori ar y lleihad gofynnol o 25 y cant.

Dylid nodi y bu ychydig o gynnydd yn y defnydd o ddŵr ac mae hyn yn cyfateb yn uniongyrchol â'r cynnydd yn nifer tenantiaid y llywodraeth sydd gennym ar draws ein hystad.

Mae ail linyn rheoli dŵr yn ymwneud â bodloni arferion gorau o lai na 4 metr sgwâr o ddŵr y pen y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae 12 swyddfa yn cyflawni'r lefel hon a byddwn yn parhau i fonitro perfformiad gyda Carillion i sicrhau bod y lefel hon yn cael ei chynnal.

| | Targed dŵr flwyddyn ar ôl blwyddyn (m3) | Rhagolygon dŵr (gan gynnwys cymhellion) | Rhagolygon canran lleihad | Dŵr gwirioneddol (m3) | Canran lleihad gwirioneddol cronnus |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009/10 (gwaelodlin) | 57,214.0 | 57,214.0 | 0% | 57,214.0 | 0% |
| 2010/11 | 54,353.3 | 57,214.0 | 0% | 54,644.0 | -4% |
| 2011/12 | 51,492.6 | 57,214.0 | 0% | 37,413.0 | -35% |
| 2012/13 | 48,631.9 | 57,214.0 | 0% | 31,230.0 | -45% |
| 2013/14 | 45,771.2 | 56,984.0 | 0% | 36,037.0 | -37% |
| 2014/15 | 42,910.5 | 56,984.0 | 0% | Amh | -1% |

### Addasu i newid hinsawdd

Mae ein Cynllun Addasu i Newid Hinsawdd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 2013 yn dilyn yr adroddiadau a gwblhawyd yn Swyddfa Fylde sy'n cynnwys gwybodaeth y mae modd ei throsglwyddo i nifer o leoliadau ar yr ystad.

### Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Rydym yn hyrwyddo gwelliannau mewn bioamrywiaeth drwy ein contract rheoli cyfleusterau â Carillion. Mae ein tir yn cael ei reoli a'i gynnal a'i gadw er mwyn hyrwyddo bioamrywiaeth well. Mae cynllun gweithredu bioamrywiaeth wedi cael ei lunio er mwyn i ni allu gwneud gwelliannau bioamrywiaeth.

### Caffael cynaliadwy yn erbyn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth

Mae ymdrech parhaus gan y Tîm Caffael Corfforaethol, drwy gydweithio â'u budd-ddeiliaid busnes a phrif gyflenwyr, wedi golygu bod y tîm wedi ennill Lefel 3 (Ymarfer) ar draws pob categori ym model aeddfedrwydd y Fframwaith Hyblyg Caffael Cynaliadwy.

Rydym wedi parhau i gydweithio â'n prif gyflenwyr ar faterion cynaliadwyedd. Roedd hyn yn cynnwys ffurfio partneriaeth â Steria yn ei waith gwirfoddol gydag elusen leol, tirlunio ac addurno cyfleuster newydd sy'n cael ei ddefnyddio i integreiddio pobl ifanc sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol i'r gymuned ehangach. Rydym hefyd wedi diweddaru ein polisi a gweithdrefnau, gyda'r nod o gynyddu cyfran ein gwariant gyda mentrau bach a chanolig yn unol ag amcanion Swyddfa'r Cabinet.

### System Rheolaeth Amgylcheddol

Mae ein System Rheolaeth Amgylcheddol achrededig wedi bod yn ei lle ers Ionawr 2001. Mae'r system yn cwmpasu'r ystad swyddfeydd ac adeiladau eraill. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae'r system wedi bod yn destun archwiliadau mewnol ym mhob lleoliad ac archwiliad allanol gan DNV mewn chwe lleoliad, ac mae ein hardystiad ISO14001 wedi parhau.

### Llywodraethu

Mae ein perfformiad yn destun archwiliad mewnol gan ein Grŵp Archwilio Mewnol, gydag archwiliad penodol wedi'i gynnal yn 2013 ar reoli ac adrodd ar garbon.

Mae gwybodaeth am y defnydd o drydan a nwy yn cael ei chymryd yn uniongyrchol o'r anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr.

Mae pob mesurydd cyfleustodau yn cael ei ddarllen bob mis gan y contractwr rheoli cyfleusterau ac mae'r wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Rheolwr Cynaliadwyedd. Mae'r defnydd o ddŵr yn cael ei gymryd o'r wybodaeth hon a defnyddir darlleniadau eraill i wirio dilysrwydd anfonebau yn achlysurol.

Mae'r data yn cael ei gasglu a'i gofnodi yn unol â gofynion Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth a'i roi ar ePIMS (Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Eiddo electronig) bob mis yn ôl yr angen.

Rheolwn gydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol drwy ein Fframwaith Llywodraethu Cynaliadwyedd. Fe'i rheolir drwy'r Rheolwr Cynaliadwyedd gan ein Huwch Bartneriaid Busnes Cyfleusterau a Carillion.

## ch) Materion cymdeithasol a chymunedol

Adroddir ar y rhain yn yr adran Gwybodaeth gryno (tudalen 39).

## d) Perfformiad busnes (cerrig milltir strategol/dangosyddion perfformiad allweddol)

Ein pwrpas yw galluogi rhyddhau gwerth economaidd mewn tir ac eiddo a marchnadoedd data cysylltiedig.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod fel sefydliad sy'n arwain y byd ym maes gwasanaethau cofrestru tir digidol a rheoli ac ailddefnyddio data tir ac eiddo.

Mae ein pedwar amcan strategol - effeithlonrwydd, data, sicrwydd a galluogrwydd - wedi'u nodi uwchben pob un o'r targedau perthnasol rydym yn adrodd arnynt isod.

Ym Mawrth 2013 cyhoeddwyd ein 15 targed yn y datganiad gweinidogol ysgrifenedig ar gyfer 2013/14. Mae'r rhain yn cynnwys chwe cham carreg filltir i ddechrau'r daith o ddatblygu'r themâu strategol uchod. Mae ein perfformiad wedi'i grynhoi isod.

| | Dangosydd perfformiad allweddol/amcan | Perfformiad |
|---|---|---|
| | **Effeithlonrwydd** | |
| | *Byddwn yn datgloi effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus ac yn y farchnad tir ac eiddo* | |
| E1 | Rhedeg y gyllideb weithredol gydag effeithlonrwydd mewn termau amser real a lleihad Strategaeth Fusnes o 3.2 y cant | Cyflawnwyd 4% |
| E2 | Cynyddu nifer y ceisiadau deliad safonol a gyflwynir yn electronig gan 11 y cant i gyflawni 44 y cant o ddeliadau electronig erbyn Mawrth 2014 | Cyflawnwyd 55.9% |
| E3 | Datblygu prototeip o'r gofrestr Pridiannau Tir Lleol, ei werthuso a llunio adroddiad i'r gweinidogion erbyn Mawrth 2014, gydag argymhellion ar gyfer y camau nesaf tuag at wasanaeth Pridiannau Tir Lleol newydd *(prototeip wedi'i gwblhau, Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi cymeradwyo'r gwerthusiad ym mis Tachwedd, wedi'i anfon at y Gweinidog a wnaeth gymeradwyo'r gwerthusiad)* | Cyflawnwyd |
| E4 | Cofrestriadau safonol wedi'u cwblhau o fewn saith diwrnod gwaith ar gyfartaledd | Cyflawnwyd 6.8 diwrnod |
| E5 | Pump y cant o leihad mewn allyriadau carbon yn seiliedig ar 2012/13 | Cyflawnwyd 9.9% |
| | **Data** | |
| | *Byddwn yn ailddefnyddio data i'r eithaf er lles yr economi ehangach* | |
| D1 | Rhyddhau setiau data trwyddadwy ychwanegol erbyn 31 Mawrth 2014 *(Tablau cefndir Mynegai Prisiau Tai wedi'u rhyddhau ym Mai, polygonau INSPIRE wedi'u rhyddhau ym Medi a'r holl ddata pris a dalwyd hanesyddol (yn ôl i 1995) wedi'i ryddhau erbyn Tachwedd)* | Cyflawnwyd |
| D2 | Datblygu cyfleuster ar-lein sy'n gallu darparu mynediad rhwydd i gwsmeriaid i ddata trwyddadwy erbyn 31 Mawrth 2014 *(Prototeip Cyhoeddi Data wedi'i lansio ym Medi, rhyddhau'r set data cyntaf (Data Masnachol a Pherchnogaeth Gorfforaethol wedi'i lansio ym Mawrth)* | Cyflawnwyd |
| D3 | Rhyddhau dwy set data ychwanegol i safon W3 lefel 4 erbyn 31 Mawrth 2014 *(Tablau cefndir Mynegai Prisiau Tai a data pris a dalwyd hanesyddol wedi'u rhyddhau fel data cysylltiedig (W3) yng Ngorffennaf)* | Cyflawnwyd |
| D4 | Argaeledd e-wasanaethau allanol ar gyfartaledd yn 99.6 y cant neu'n uwch yn ystod oriau gwasanaeth cyhoeddedig | Cyflawnwyd 99.7% |
| | **Sicrwydd** | |
| | *Byddwn yn cynyddu ac yn ehangu'r sicrwydd a'r gydymffurfiaeth a ddarperir i'r farchnad* | |
| S1 | Canran y cwsmeriaid sy'n graddio ein gwasanaeth cyffredinol fel un da, da iawn neu ardderchog i gyrraedd 96 y cant | Cyflawnwyd 98% |
| S2 | Cyflawni Sgôr Hyrwyddwr Net o 50 | Cyflawnwyd 52 |
| S3 | Cyflwyno gwasanaeth rhybudd eiddo am ddim i'w lansio erbyn 30 Medi *(beta wedi'i lansio Tachwedd 2013, gwasanaeth byw Mawrth 2014, gweler yr esboniad pellach isod)* | Heb ei gyflawni |
| S4 | Cofrestriadau safonol i basio o leiaf 98 y cant o'r gwiriadau ansawdd diffiniedig | Cyflawnwyd 98.4% |
| | **Galluogrwydd** | |
| | *Byddwn yn tyfu ac yn gwneud y mwyaf o'n galluogrwydd sefydliadol* | |
| G1 | Byddwn yn y 3ydd chwartel o adrannau Whitehall o ran ymgysylltu â staff erbyn diwedd 2013/14 *(rydym wedi parhau yn y grŵp pedwerydd chwartel ar draws Whitehall)* | Heb ei gyflawni |
| G2 | Cyflwyno technegau Perfformio ac Arloesi (Lean) i'r timau rheoli ym mhob cyfarwyddiaeth a swyddfa leol erbyn 31 Mawrth 2014 *(Methodoleg Perfformio ac Arloesi wedi'i chyflwyno ar draws pob tîm rheoli, wedi'i ddangos drwy ddatblygu canolbwyntiau cyfathrebu a gwybodaeth)* | Cyflawnwyd |

## Sylwebaeth

Cyrhaeddwyd 13 o'r 15 targed heriol. Mae hyn wedi cael ei ddilysu gan Archwilio Mewnol.

Ni lwyddwyd i gyrraedd un o'r targedau yn llawn - sef rhyddhau'r gwasanaeth Property Alert - a gafodd ei gyflwyno yn unol ag amcan y Strategaeth Fusnes ond cafodd rhyddhau'r gwasanaeth ei oedi tan ar ôl y dyddiad cau o 30 Medi er mwyn cryfhau'r mesurau diogelwch sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch. Mae hyn yn golygu ein bod ni wedi colli'r dyddiad rhyddhau carreg filltir strategol ond nid yr amcan cyffredinol.

Collwyd ein targed i wella ymgysylltu â staff drwy gyrraedd y 3ydd chwartel yn arolwg Whitehall. Roedd ein sgôr gyffredinol wedi parhau yn 48 y cant. Rydym yn ymrwymedig i wella'r sgôr ymgysylltu â staff ond yn ystod cyfnod sy'n rhagweld newid mawr, rydym wedi sefydlu dangosydd perfformiad allweddol allanol newydd. Bydd hyn yn mesur y cysylltiad â nodau tymor byr, a gwerthoedd y sefydliad yn ogystal ag iechyd a lles y gweithlu.

At ei gilydd, yn ystod blwyddyn o gynnydd yn y llwyth gwaith ac ansicrwydd yn y cyfnod paratoi ar gyfer y Strategaeth Fusnes, mae cyflawniadau'r gweithlu wedi bod yn sylweddol.

## Amrywiaeth

Gwnaethpwyd cynnydd da yn erbyn ein dau amcan cydraddoldeb pedair blynedd. Roedd yr uchafbwyntiau ar gyfer yr amcan cydraddoldeb allanol yn cynnwys cwblhau a dadansoddi'r arolwg canolfan gyswllt cwsmeriaid a ddangosodd fod y rhan fwyaf o staff yn hyderus neu'n well wrth ddelio â chwsmeriaid mewn sefyllfaoedd byw. Bydd offer a deunyddiau hyfforddi pellach yn cael eu datblygu mewn ymateb i ganfyddiadau'r arolwg. Roedd yr uchafbwyntiau ar gyfer yr amcan cydraddoldeb mewnol yn cynnwys sefydlu mentora gwrthdro ar gyfer hyrwyddwyr amrywiaeth y Bwrdd a chynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n datgan eu cyfeiriadedd rhywiol a'u cred grefyddol.

## Amcan cydraddoldeb mewnol

Ysgogi diwylliant o gynhwysiant a pharch o fewn ein sefydliad a cheisio gwella ymgysylltu â staff sydd â nodweddion gwarchodedig cyffredin mewn ffordd gadarnhaol.

## Amcan cydraddoldeb allanol

Galluogi ein staff i adnabod, rhagweld a bodloni anghenion amrywiol ein cwsmeriaid drwy ddarparu cynhyrchion, gwasanaethau a sianeli am bris y gallwn ei fforddio.

Rydym yn monitro ein cynnydd o ran cyflawni yn erbyn yr amcanion hyn yn ôl pa mor dda rydym ni'n clirio'r gweithredoedd manwl drwy'r Pwyllgor Amrywiaeth. Rydym yn adrodd yn allanol drwy'r Adroddiad Gwybodaeth Cydraddoldeb blynyddol (www.landregistry.gov.uk>About us>Organisation information>Diversity policies).

**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
14 Gorffennaf 2014




**Kirsty Pearce**


**Mark Boyle**


**Catrina Holme**


**Tim Franklin**


**Gerard Connell**


**Ed Lester**


**John Peaden**


**Mike Westcott-Rudd**


**Camilla Black**

# Adroddiad y cyfarwyddwyr

## a) Rhwymedigaethau pensiwn

Mae manylion ynglŷn â thrin rhwymedigaethau pensiwn ar gael yn nodyn 1.8 ar y cyfrifon ac yn yr adroddiad tâl.

## b) Manylion y cyfarwyddwyr ac aelodau'r Bwrdd

### Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn un goruchwyliol yn bennaf. Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn gyfrifol am lywodraethu ac atebolrwydd cyhoeddus, yn gosod strategaeth y Gofrestrfa Tir ac yn helpu'r Prif Gofrestrydd Tir a'r Prif Weithredwr yn ei gyfrifoldeb pennaf fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer llywodraethu a pherfformiad y Gofrestrfa Tir.

Cymeradwywyd cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn haf 2012 ac mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cwrdd bob mis yn gyffredinol neu fel a phryd y bydd angen a chynhaliwyd 11 cyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd sawl cyfarfod ad hoc hefyd i drafod strategaeth a materion penodol eraill. Mae'r Cadeirydd, y Prif Gofrestrydd Tir a'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid hefyd yn cynnal cyfarfodydd cyfranddalwyr bob tri mis â'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr.

Mae aelodaeth o Fwrdd y Gofrestrfa Tir fel a ganlyn.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Mark Boyle (Cadeirydd) | Cadeirydd Anweithredol (o 24 Hydref 2011) |
| Tim Franklin | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 8 Gorffennaf 2012) |
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 8 Gorffennaf 2012) |
| Kirsty Pearce | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Tachwedd 2012) |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Medi 2013) |
| Ed Lester | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (o 13 Mai 2013) |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| Paul Hemsley[1] | Cyfarwyddwr Cyllid (o 21 Chwefror 2013 i 28 Awst 2013) |
| Camilla Black[1] | Cyfarwyddwr Cyllid (o 27 Awst 2013 i 9 Mai 2014) |
| Stephen Park | Cyfarwyddwr Cyllid (o 12 Mai 2014) |
| Mike Westcott-Rudd | Ysgrifennydd y Bwrdd[2] (o 25 Mawrth 2014) |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 13 Mai 2013) |

1. Yn unol â chanllawiau'r Swyddfa'r Cabinet roedd y penodiadau dros dro hyn yn amser cyfyngedig.
2. Rôl newydd wedi'i chreu.

## Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr a'i aelodau yw cyfarwyddwyr gweithredol y Gofrestrfa Tir. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gyflenwi Cynllun Rheoli Blynyddol y Gofrestrfa Tir ac am reoli gweithrediad y busnes o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob mis a chyfarfu 12 gwaith yn ystod y flwyddyn.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Ed Lester (Cadeirydd) | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (o 13 Mai 2013) |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 13 Mai 2013) |
| Alasdair Lewis | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| Stephen Park | Cyfarwyddwr Cyllid (o 12 Mai 2014) |
| Camilla Black | Cyfarwyddwr Cyllid (o 27 Awst 2013 i 9 Mai 2014) |
| Paul Hemsley | Cyfarwyddwr Cyllid (o 21 Chwefror 2013 i 28 Awst 2013) |
| Caroline Anderson | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (o 16 Rhagfyr 2013) |
| Jon Cocking | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro (o 25 Chwefror 2013 i 16 Rhagfyr 2013) |
| Rowland Coombs | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth Dros Dro (o 1 Hydref 2012) |
| Eddie Davies[1] | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro (o 1 Ionawr 2013) |
| Annette Davies-Govett | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid (tan 14 Mehefin 2013) |

1. Roedd Eddie Davies wedi darparu gwasanaeth dros dro yn absenoldeb Annette Davies-Govett ac mae wedi parhau i wasanaethu fel Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro pan adawodd hi ym Mehefin.

Nodyn: Ar ddiwedd y flwyddyn penodwyd Paul Dowse yn Gyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro.

## Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r pwyllgor yn cefnogi Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd ar y fframwaith rheoli risg, y fframwaith rheolaeth, llywodraethu a chydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, safonau allanol a gofynion statudol.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Tim Franklin (Cadeirydd) | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 8 Gorffennaf 2012) |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Medi 2013) |
| Derrick Palmer | Aelod anweithredol (o 1 Mawrth 2013) |
| **Mynychwyr** | |
| Ed Lester | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (o 13 Mai 2013) |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 13 Mai 2013) |
| Stephen Park | Cyfarwyddwr Cyllid (o 12 Mai 2014) |
| Camilla Black | Cyfarwyddwr Cyllid (o 27 Awst 2013 i 9 Mai 2014) |
| Paul Hemsley | Cyfarwyddwr Cyllid (o 21 Chwefror 2013 i 28 Awst 2013) |
| Grahame Hughes | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | Y Swyddfa Archwilio Mewnol |



**Rowland Coombs**

## Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu

Mae'r pwyllgor yn cytuno ar y strategaeth dâl ac yn awdurdodi'r adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff Uwch Wasanaeth Sifil y Gofrestrfa Tir ac yn cytuno ar strategaeth ar gyfer dilyniant i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Mark Boyle (Cadeirydd tan 10 Medi 2013)[1] | Cadeirydd Anweithredol (o 24 Hydref 2011) |
| Catrina Holme (Cadeirydd o 10 Medi 2013) | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 8 Gorffennaf 2012) |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Hydref 2013) |
| Ed Lester | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (o 13 Mai 2013) |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 13 Mai 2013) |

1. Roedd Mark Boyle wedi gadael y pwyllgor pan drosglwyddodd y rôl o gadeirydd i Catrina Holme.

## c) Data absenoldeb salwch a cholli gwybodaeth

Mae manylion absenoldeb salwch i'w gweld ar y dudalen Gwybodaeth gryno (gweler tudalen 39). Mae digwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u cynnwys o fewn y datganiad llywodraethu (tudalen 54).

## ch) Gwybodaeth i archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwiliwr yn ymwybodol ohoni, ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod yr archwiliwr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
14 Gorffennaf 2014



**Alasdair Lewis**



**Eddie Davies**



**Caroline Anderson**



# Gwybodaeth gryno

## Pobl

| | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) ar 31 Mawrth | 4,462 | 4,579 |
| Cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth | 3,999 | 4,060 |
| Diwrnodau salwch fesul gweithiwr ar gyfartaledd | 6.2 | 7.1 |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr ar gyfartaledd | 4.3 | 4.2 |
| Gwariant hyfforddiant fel canran o'r bil cyflogau | 2.6% | 3.1% |
| Gweithwyr benyw | 61% | 62% |
| Gweithwyr rhan-amser | 37% | 38% |
| Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | 4% | 4% |
| Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt | 7% | 6.5% |


### Adnoddau

Mae ein trefniadau recriwtio yn cael eu cynnal ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ac maent yn cael eu monitro'n fewnol. Cafodd pedwar aelod o staff mewn meysydd arbenigol eu recriwtio i'r Gwasanaeth Sifil i swyddi arbenigol parhaol ac 16 ar gontractau cyfnod penodol. Roedd pedwar wedi trosglwyddo i'r Gofrestrfa Tir o adrannau eraill o'r llywodraeth ac un ar gontract cyfnod penodol.

Mae gweithgarwch adnoddau wedi canolbwyntio ar uwch benodiadau i sicrhau bod y tîm arweinyddiaeth cywir gennym yn ei le i fynd â ni trwy'r newidiadau mawr sydd ar ddod. Rydym hefyd wedi dod ag arbenigedd i mewn ar lefel y tîm uwch ym maes cyllid a rheoli portffolio am gyfnod penodol, ac wedi ychwanegu at sgiliau TG a rheoli prosiect arbenigol gyda phenodiadau cyfnod penodol a lleoliadau myfyrwyr. Ni lwyddwyd i gael Prif Swyddog Cyllid parhaol. Dechreuodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn ei swydd yn Rhagfyr 2013.

O ganlyniad i'r adolygiad o'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, roedd nifer y swyddi Uwch Wasanaeth Sifil wedi lleihau o 14 i 6, a chyflawnwyd hyn drwy staff yn ymadael yn wirfoddol.

**Cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd yn y flwyddyn**




## Iechyd a lles

Mae iechyd a lles ein staff yn hollbwysig i ni. Mae ein strategaeth iechyd, lles a phresenoldeb, sydd yn ei hail flwyddyn bellach, wedi nodi'r materion allweddol o fewn y sefydliad a dwyn ynghyd yr holl weithgareddau a mentrau cysylltiedig i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Nodau strategaeth 2013/14 oedd:

— hyrwyddo, annog ac ysbrydoli gweithwyr i wneud dewisiadau ffordd o fyw cadarnhaol

— parhau i ddatblygu a chorffori iechyd a lles, gan gynnal datblygiad diwylliant lle mae iechyd a lles yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel rhywbeth sy'n cyfrannu at weithlu ymgysylltiol

— codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau iechyd meddwl gyda'r nod o gefnogi lles a gwydnwch emosiynol

— datblygu ymhellach gallu a hyder y rheolwr linell, gan newid y ffocws i les yn hytrach na salwch

— sefydlu offer a chanllawiau i gefnogi lles ariannol gweithwyr

Y prif gyflawniadau yn 2013/14 oedd:

— cynnydd o 31 y cant yn y staff sy'n cymryd rhan yn Her Taith Gerdded Rithwir yr Elusen Gweision Sifil - ni oedd y sefydliad buddugol am y camau a gymerwyd

— ennill Gwobr Gweithle Iach Simplyhealth

— lleihad parhaus yn lefelau absenoldeb salwch i 6.2 o ddiwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd

— defnyddio ein strategaeth fel astudiaeth achos gan y sefydliad ymchwil annibynnol IDS yn ei nodyn briffio *Land Registry adopts a joined-up approach to health and wellbeing.*

Mae lles staff yn cael ei hyrwyddo drwy gyfuniad o'r gweithgareddau allweddol canlynol.

— Sesiynau sgrinio iechyd a 'gwybod eich rhifau' sy'n cynnig cyfle i staff fonitro pwysau gwaed, mynegai màs y corff a cholesterol.

— Staff ar draws y sefydliad yn cymryd rhan mewn heriau gweithgaredd corfforol.

— Cyflwyno cynllun beicio i'r gwaith.

— Cynnig gwasanaeth cymorth i weithwyr a rheolwyr i helpu staff i ddelio â phroblemau emosiynol, iechyd a chymdeithasol.

— Darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

— Ymgyrchoedd a chyhoeddiadau iechyd adrannol gyda gwybodaeth fwy cynhwysfawr drwy'r fewnrwyd.

## Amrywiaeth

Rydym wedi parhau i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb strategol sy'n ffurfio rhan o'n Cynllun Rheoli Blynyddol. Mae cynnydd ar y ddau amcan ar darged ar hyn o bryd gyda statws coch/ambr/gwyrdd cyffredinol o wyrdd.

Mae ein prosiect datgan wedi ffurfio un o'r prif weithgareddau ar gyfer ein hamcan cydraddoldeb mewnol. Dros y 12 mis diwethaf gwelwyd cynnydd pellach yng nghyfraddau datgan ar draws pob grŵp, gyda 56 y cant o'r staff yn datgan eu cyfeiriadedd rhywiol a'u crefydd, 99 y cant yn datgan eu statws anabledd a 95 y cant yn datgan eu hethnigrwydd.

Mae deall demograffeg ein gweithwyr yn agwedd bwysig ar ein gwaith amrywiaeth, gan sicrhau ein bod yn symud unrhyw rwystrau i gynhwysiant. Drwy hyn gallwn ddadansoddi data ar draws holl weithgareddau adnoddau dynol. Cyhoeddwyd ein trydydd Adroddiad Gwybodaeth Cydraddoldeb ym mis Medi.

Mae monitro amrywiaeth yn ein helpu i adnabod rhaglenni gweithredu cadarnhaol. Ein prif weithgaredd yw'r cwrs Pathways i staff iau sy'n ceisio cynyddu'r proffil amrywiaeth o fewn graddau rheolwyr canol. Cynigir y cwrs hwn i staff du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, staff ag anableddau a staff sy'n nodi eu bod nhw'n lesbïaidd, hoyw neu'n ddeurywiol.

Rydym yn parhau i gynnig mentora i staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac rydym wrthi'n treialu mentora gwrthdro gyda'n Hyrwyddwr Bwrdd Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.

Mae gwella ymgysylltu â staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn parhau i fod yn amcan allweddol. Lansiwyd ein Straight Allies Programme i roi cymorth pellach i'n cydweithwyr lesbïaidd, hoyw a deurywiol yn y gweithle. Mae ein hyrwyddwyr amrywiaeth lleol wedi parhau i ddarparu gweithgareddau cysylltiedig ag amrywiaeth ar draws y sefydliad gan gynnwys digwyddiadau ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Rhyngwladol yr Anabl a Mis Hanes Pobl Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.

Mae gwaith ar ein hamcan cydraddoldeb allanol wedi canolbwyntio ar sicrhau bod ein gwasanaethau digidol yn bodloni anghenion ein sylfaen cwsmeriaid amrywiol. Mae'r gwaith wedi cynnwys sicrhau bod cynhyrchion yn cydymffurfio â'r safon ryngwladol ar gyfer hygyrchedd gwefan a bod datrysiadau digidol cynorthwyedig yn cael eu cynnig. Mae gwaith wedi parhau i adnabod bylchau yn yr wybodaeth honno ymysg staff sy'n delio â chwsmeriaid.

Cafodd ein gwaith gydnabyddiaeth allanol drwy ennill Gwobr Diwylliant Cynhwysol Rhwydwaith y Cyflogwyr dros Gydraddoldeb a Chynhwysiant ar gyfer ein hymgyrch Respect. Hefyd ailymunwyd â 100 Cyflogwr Gorau Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, ar safle 72.

## Iechyd a diogelwch

Mae Carillion wedi parhau i ddarparu gwasanaethau rheoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd ar ein cyfer fel rhan o'r contract rheoli cyfleusterau ehangach.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein canllawiau iechyd a diogelwch, prosesau a pholisïau gyda chymorth Carillion. Yn arbennig rydym wedi rhoi sylw manwl i'r Polisi Gyrru er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y ffordd y mae'r sefydliad yn cyflawni ei waith, ac wedi llunio Polisi Asesu Offer Sgrin Arddangos newydd. Rydym hefyd wedi buddsoddi amser sylweddol yn datblygu dealltwriaeth rheolwyr llinell o faterion iechyd a diogelwch drwy gymysgedd o hyfforddiant ar-lein gan Civil Serivce Learning a sesiynau briffio wyneb yn wyneb.

Cyfanswm y damweiniau a gofnodwyd yn y gwaith oedd 112, i lawr o 212 y flwyddyn flaenorol. Cafodd pedair damwain eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus, i lawr o bump yn 2012/13. Cyflwynwyd Strategaeth Lleihau Damweiniau yn ystod y flwyddyn gyda'r nod o leihau lefelau'r damweiniau a adroddwyd yn ystod cyfnod tair blynedd y strategaeth.

Cymerwn ein cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch ein staff ac ymwelwyr i'n safleoedd o ddifrif ac rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu'r atebion arfer gorau o ran rheoli iechyd a diogelwch lle bynnag y bo'n bosibl.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn rydym wedi dechrau'r broses o ardystio ein System Rheoli Iechyd a Diogelwch i OHSAS18001, sef y Safon Brydeinig. Ym mis Chwefror cynhaliwyd adolygiad o'n dogfennaeth gydag archwilwyr allanol a bydd yr archwiliad ardystio llawn yn mynd rhagddo ym Mehefin.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae digwyddiadau sydd, ym marn y rheolwr data, heb eu cynnwys o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sydd wedi'u cofnodi'n ganolog o fewn yr adran, i'w gweld yn y tabl isod. Nid yw digwyddiadau bach, lleol yn cael eu cofnodi'n ganolog ac ni chânt eu nodi yn y ffigurau hyn.

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o adeiladau diogel y llywodraeth | 2 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o'r tu allan i adeiladau diogel y llywodraeth | — |
| III | Gwaredu offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol mewn modd anniogel | — |
| IV | Datgeliadau heb eu hawdurdodi | 1 |
| V | Arall | 2 |
| **Cyfanswm** | | **5** |

## Cynnwys gweithwyr

Rydym yn ymgysylltu'n gyson yn anffurfiol ac yn ffurfiol â staff a'u cynrychiolwyr.

Estynnir gwahoddiad agored i staff e-bostio'r Bwrdd Gweithredol gyda chwestiynau ac mae'r atebion yn cael eu cyhoeddi ar ein mewnrwyd i bawb eu gweld.

Rydym wedi parhau i gydweithio â thimau rheoli wrth ddatblygu ac ehangu cyfarfodydd tîm strwythuredig rheolaidd. Y nod yw creu amgylchedd lle mae perfformiad yn cael ei drafod yn agored, wedi'i gynnal gan ddata ystyrlon, a chroesewir syniadau ar gyfer gwelliannau i arferion gwaith.

Mae rheolwyr hefyd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r cyfarfodydd hyn i siarad â'u staff am faterion a newid sefydliadol ehangach ac i drafod pryderon staff am y rhain. Mae'r ymagwedd at gyfathrebu corfforaethol ynghylch dyfodol y Gofrestrfa Tir wedi bod yn gymysg, gan gynnwys ystod o ddulliau: diweddariadau uniongyrchol gan y Prif Weithredwr, gwybodaeth i uwch reolwyr ei thrafod â staff, a gwybodaeth gan gynnwys cwestiynau ac atebion wedi'u cyhoeddi ar ein mewnrwyd.

Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â'n hundebau. Ar lefel adrannol rydym yn cwrdd bob pythefnos, pan fydd yr Adran Adnoddau Dynol gyda chymorth cynrychiolwyr rheoli yn arwain trafodaethau ar y newidiadau a allai effeithio ar staff. Mae meysydd o bryder i'r ddwy ochr yn cael eu trafod, ac er nad ydynt bob amser yn cael eu datrys, mae barn yn cael ei cheisio os yw'n bosibl cyn gwneud y newidiadau terfynol a'u gweithredu.

Ddwywaith y flwyddyn bydd y Prif Weithredwr ac aelodau o'i dîm yn cwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr yng nghyfarfodydd Adrannol Cyngor Whitley. Ar lefel leol mae strwythurau yn eu lle ar gyfer cyfarfodydd Whitley lleol.

Credwn fod cynnal trafodaethau adeiladol â'r undebau ar lefel adrannol a lleol, yn ogystal ag annog staff i gymryd rhan ar bwyllgorau eraill (gan gynnwys iechyd a lles, cymdeithasol a chwaraeon, amrywiaeth ac elusennol) yn ogystal ag ymweliadau cyfarwyddwyr pan fydd sesiynau holi ac ateb yn cael eu cynnal, i gyd yn hanfodol i sicrhau bod barn y gweithwyr yn cael ei chlywed a'i deall.

## Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Cyflawnwn ein rôl fel Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus drwy ddilyn y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae diogelu gwybodaeth yn cael ei gymryd o ddifrif ac mae hyfforddiant 'Cyfrifol am Wybodaeth' yn orfodol ar gyfer ein staff. Rydym hefyd wedi hyrwyddo dealltwriaeth glir o'r Polisi Dosbarthiad Diogelwch Llywodraeth newydd. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn goruchwylio'r broses Rheoli Risg Gwybodaeth, sy'n cael ei fesur trwy achrediad allanol (IS027001) a hunanasesiad sy'n cael ei herio'n annibynnol (drwy ddefnyddio Model Aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth - IAMM).

## Cofrestru tir

Roedd ein timau wedi cofrestru 363,989 hectar o dir am y tro cyntaf, gan gymryd y cyfanswm i 12,992,610 hectar allan o'r uchafswm y gellid ei gofrestru o 15,417,821 hectar a chanran y tir yng Nghymru a Lloegr yn y Gofrestr Tir hyd at 84.3 y cant.

## Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. Mae'r adran hefyd yn cynnal y Mynegai o Enwau Perchnogion (IOPN). Gellir chwilio'r mynegai hwn dim ond os oes gennych yr awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir. Eleni cafodd cyfrifon credyd eu cau a symudwyd tuag at gyfrifon debyd uniongyrchol amrywiadol ar gyfer ein cwsmeriaid.

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

Cyfanswm ar y cyd y ceisiadau a gafodd eu trin gan yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol oedd 1,630,930 o'i gymharu ag 1,344,111 yn 2012/13, sef cynnydd o 286,819 o geisiadau neu 21.3 y cant.

Cyfanswm y chwiliadau a broseswyd oedd 1,520,446 o'i gymharu ag 1,218,239 yn 2012/13, sef cynnydd o 302,207 o geisiadau chwilio neu 24.8 y cant.

Roedd y defnydd o e-fynediad ar gyfer chwiliadau (llawn a methdaliad) a cheisiadau copi swyddfa wedi parhau i godi. Cafodd cyfanswm o 92.9 y cant o'r mathau hyn o geisiadau eu gwneud drwy fynediad uniongyrchol.

## Yr Adran Pridiannau Tir

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2013/14 | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2012/13 | Canran newid |
|---|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 65,847 | 79,931 | – 17.6% |
| Dileadau | 10,511 | 12,965 | – 18.9% |
| Chwiliadau swyddogol: | | | |
| – Chwiliadau llawn | 182,394 | 177,134 | 3.0% |
| – Chwiliadau wedi'u cyfyngu i ansolfedd | 1,338,052 | 1,041,105 | 28.5% |
| Copïau swyddfa | 29,859 | 27,639 | 8.0% |
| **Cyfanswm** | **1,626,663** | **1,338,774** | **21.5%** |

## Yr Adran Credydau Amaethyddol

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2013/14 | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2012/13 | Canran newid |
|---|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd | 772 | 645 | 19.7% |
| Dileadau a chywiriadau | 943 | 1,006 | – 6.3% |
| Chwiliadau | 2,552 | 3,686 | – 30.8% |
| **Cyfanswm** | **4,267** | **5,337** | **– 20.0%** |

## Deddfwriaeth

**Gorchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013**
Gwnaethpwyd Gorchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013 ar 12 Rhagfyr 2013 a daeth i rym ar 17 Mawrth 2014.

O dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002, gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn bennu'r ffioedd sydd i'w talu am ddeliadau â'r Gofrestrfa Tir a gwneud darpariaeth am dalu'r ffioedd hynny.

Mae gorchymyn ffi yn cael ei wneud gyda chyngor a chymorth y Pwyllgor Rheolau a chyda chaniatâd Trysorlys EM.

Gan fod y ffioedd o dan y gorchymyn ffi 2012 yn cynhyrchu ffioedd incwm oedd yn sylweddol mwy na'n gofynion, roedd rhaid paratoi gorchymyn ffi newydd i leihau'r ffioedd.

Y prif newidiadau a wnaed gan orchymyn 2013 yw:

- gostyngiad o 50 y cant yn y ffioedd ar gyfer ceisiadau i gofrestru trosglwyddiadau ac arwystlon o'r cyfan o deitl cofrestredig, a'r ffioedd ar gyfer rhai ceisiadau cofrestru eraill, os yw'r ceisiadau hyn yn cael eu hanfon yn electronig. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu'r mesurau effeithlonrwydd a'r buddion y mae ceisiadau electronig yn eu cynnig, a bydd yn gymhelliant i gwsmeriaid ddefnyddio'r gwasanaeth e-gyflwyno.
- y newidiadau canlynol i ffioedd Graddfa 1:
  - uno'r ddau fand ffioedd isaf, gan greu un band ar gyfer eiddo sy'n werth rhwng £0 i £80,000, gyda ffi o £40
  - gostyngiad yn y ffi ar gyfer eiddo sy'n werth rhwng £80,001 a £100,000 o £120 i £80
- yn ogystal â symleiddio'r bandiau ffioedd, gostyngiad yn y ffioedd i geiswyr ar ochr is y farchnad eiddo, yn enwedig hawliau i brynu a phryniadau rhannu ecwiti
- symleiddio'r ffioedd ar gyfer archwilio a chopïau swyddogol o ddogfennau drwy gyflwyno un ffi fesul dogfen (£3 y ddogfen os gwneir cais electronig a £7 y ddogfen ar gyfer ceisiadau papur).

**Gorchymyn Cofrestru Tir (Swyddfa Briodol) 2013**
Gwnaethpwyd Gorchymyn Cofrestru Tir (Swyddfa Briodol) 2013 ar 1 Gorffennaf 2013 a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2013.

O dan y Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn ddynodi swyddfa arbennig y Gofrestrfa Tir fel y swyddfa briodol ar gyfer derbyn ceisiadau neu ddisgrifiad penodol o gais.

Mae'r Gorchymyn Cofrestru Tir (Swyddfa Briodol) 2013 yn dynodi bod holl swyddfeydd lleol y Gofrestrfa Tir yn swyddfeydd priodol, gan ganiatáu i geiswyr neu drawsgludwyr y ceisydd anfon ceisiadau i unrhyw un o'r swyddfeydd hyn. Yn yr un modd â gorchmynion swyddfa briodol cynharach, mae gorchymyn 2013 yn gymwys i'r holl geisiadau papur ac eithrio'r rhai lle mae'r cais yn cael ei gyflwyno yn unol â threfniadau ysgrifenedig ynghylch ei gyflwyno a wnaed rhwng y cofrestrydd a'r ceisydd neu drawsgludwr y ceisydd.

## Y Pwyllgor Rheolau

Cyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i roi cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor yn wreiddiol ond ers trosglwyddo cyfrifoldeb gweinidogol dros y Gofrestrfa Tir i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, i'r Ysgrifennydd Gwladol ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffioedd o dan y Ddeddf.

O Fedi i Hydref 2013, rhoddodd y pwyllgor gyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr hyn a ddaeth yn Orchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013.

## Gwybodaeth agored a llawn

Cofleidiwn agendâu tryloywder a data agored y Llywodraeth gan ddiogelu gwybodaeth yn briodol yr un pryd. Mae ein Rhaglen Ddata wedi ymrwymo i ryddhau setiau data - am ddim, o dan drwydded a thrwy gytundebau rhannu data - gyda'r nod o hybu'r economi ehangach. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i lunio barn gytbwys am y bygythiadau i'n gwybodaeth a'n setiau data i ddefnyddio'r atebion lletya a storio mwyaf cost-effeithiol.

Derbyniwyd 398 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a chafodd 396 ohonynt eu hateb o fewn 20 diwrnod gwaith (99.5 y cant).

## Safonau gwasanaeth

Mae manylion am y gwasanaeth y gall cwsmeriaid eu disgwyl gennym ni i'w gweld ar ein gwefan www.landregistry.gov.uk/contact-us/service-standards.

## Gwasanaeth Cymraeg

Mae gwybodaeth am ein gwasanaeth Cymraeg i'w gweld ar ein gwefan: www.landregistry.gov.uk/media/about-us/policy-statements/welsh-language-scheme.

## Cwynion

Cofnodwyd 4,576 o gwynion yn 2013/14 o'i gymharu ag 1,902 yn 2012/13.

Rhan o'r rheswm am y cynnydd hwn oedd cyflwyno'r arf Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd sydd wedi arwain at ddal mwy o sylwadau a barn cwsmeriaid nag erioed o'r blaen. Roedd mentrau eraill yn ystod y flwyddyn wedi ceisio sicrhau ystod ehangach o sylwadau gan gwsmeriaid ac mae ailddiffinio sut rydym yn categoreiddio sylwadau wedi cael effaith hefyd.

Mae dadansoddiad o sampl o'r adborth yn dangos bod cyfran y cwynion a gafodd eu cynnal wedi lleihau i 26 y cant o'i gymharu â 35 y cant yn 2012/13. Roedd y materion mwyaf cyffredin a arweiniodd at gwynion yn cynnwys oedi, cofnodion ar y gofrestr a sut rydym yn delio â cheisiadau sydd heb fod mewn trefn.

Croesawn y darlun mwy cynhwysfawr sydd gennym o gwynion cwsmeriaid, nid lleiaf oherwydd ei fod yn rhoi mwy o gyfle i ni weithredu ar bryderon cwsmeriaid a gwella gwasanaethau i bawb. Cafwyd sawl enghraifft o hyn yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- ychwanegu gwerthiannau adfeddiannu at ein Mynegai Prisiau Tai
- newid cwestiynau cyffredin ar ein gwefan er mwyn iddynt gyfateb yn well â'r cwestiynau y mae cwsmeriaid yn eu gofyn
- symud tuag at newid ein rhifau ffôn 0844 i rifau 0300 (bydd y newid hwn yn cael ei wneud yn 2014/15).

## Y Gronfa Indemniad

Yn 2013/14 talwyd £11.2m ar gyfer 1,034 o hawliadau, o'i gymharu ag £11.9m ar gyfer 1,019 o hawliadau yn 2012/13. Yr hawliad mwyaf a dalwyd oedd £1.6m ar gyfer trosglwyddiad ffug a gafodd ei gyflawni yn unol â phŵer atwrnai ffug. Twyll, fel arfer drwy gyfrwng ffugiad felly, yw'r achos mwyaf arwyddocaol o hyd o daliadau indemniad.

Uchafswm gwerth gwreiddiol yr hawliadau safonol a dalwyd oedd £16.8m ond cafodd y rhain eu talu am £9.1m, gan arbed £7.7m. Yn ystod y flwyddyn cafodd 226 o hawliadau eraill gwerth £11.4m eu talu am ddim gwerth. O'r rhain roedd 38 ohonynt ar gyfer twyll ac yn werth £3.8m. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd 1,196 o hawliadau newydd gan roi cyfanswm o £13.8m, gan gynnwys 59 o hawliadau twyll gwerth £9.6m.

Adenillwyd £2.2m o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £1.2m y flwyddyn ddiwethaf. Dyma'r swm blynyddol mwyaf i ni adennill erioed.

Roedd ffigur y flwyddyn ddiwethaf yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol, ac mae ffigur y flwyddyn hon mewn gwirionedd yn adlewyrchu proses adennill llwyddiannus yn deillio o daliad indemniad mawr iawn a wnaed ddwy flynedd yn ôl. Mae hyn yn awgrymu na fydd adennill symiau yn y dyfodol yr un mor arwyddocaol o bosib oherwydd mae llawer yn dibynnu ar y sefyllfa gyfreithiol arbennig sy'n codi o'r amgylchiadau ynghylch indemniad seiliedig ar dwyll.

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled safonol (£) | Costau (£) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ystent teitlau cofrestredig | 171 | 480,394 | 510,879 | 9 |
| Gwallau/hepgoriadau o gofnodion cofrestr | 111 | 2,090,280 | 586,192 | 24 |
| Gwallau mewn cynlluniau amrywiol | 16 | 42,500 | 53,348 | 1 |
| Twyll a ffugio | 53 | 6,445,498 | 764,215 | 64 |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 4 | – | 929 | – |
| Gwallau methdaliad | 1 | 25 | – | – |
| Chwiliadau swyddogol | 4 | – | 5,309 | – |
| Copïau swyddogol | 3 | – | 1,337 | – |
| Gwallau mewn chwiliadau o'r map mynegai (SIMs) | 15 | 40,100 | 19,231 | 1 |
| Gwallau mewn darnau wedi'u ffeilio | 165 | 485 | 30,892 | – |
| Colli dogfennau/gwallau gweinyddol | 491 | 29,990 | 103,321 | 1 |
| Gwallau Pridiannau Tir | – | – | – | – |
| **Cyfanswm** | **1,034** | **9,129,272** | **2,075,653** | **100** |
| **Taliad gros** | | | **£11,204,925** | |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan ein hawliau digolledu statudol | | | £2,155,632 | |
| **Indemniad net** | | | **£9,049,293** | |

## Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol a Connect Direct

Mae ein gwaith dros y flwyddyn wedi canolbwyntio ar gydweithio â chwsmeriaid Connect Direct a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (NLIS) i'w mudo i'n gwasanaeth Business Gateway, yn unol â'n nod o resymoli nifer y sianeli electronig rydym yn eu cynnal a lleihau costau.

Cwblhawyd mudo Connect Direct yn llawn ym mis Mai 2013 a mudo a chau NLIS i Business Gateway ym mis Tachwedd, gan arbed tua £400,000 i ni bob blwyddyn a rhoi ffordd fwy modern ac effeithlon i'n cwsmeriaid o wneud cais am ein gwybodaeth a'n gwasanaethau.

## Yr Uned Ryngwladol

Ers i'r Uned Ryngwladol gael ei ffurfio yn 2003 mae wedi darparu cyngor a gwasanaeth ymgynghori i fwy nag 80 o wledydd.

Mae dwy swyddogaeth graidd gan yr uned: cysylltiadau rhyngwladol a datblygu busnes.

Mae Julie Barry, Pennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol, yn sicrhau bod ein hymgysylltiad â chyrff gweinyddu tir dramor ar y lefel briodol i gyflawni ein rhwymedigaethau fel adran o'r llywodraeth. Mae Julie hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod ein buddiannau yn cael eu cynrychioli'n briodol ar gyrff llunio polisïau tir byd-eang.

Mae Emma Vincent, Pennaeth Datblygu Busnes Rhyngwladol, yn darparu gwasanaeth ymgynghori masnachol ac yn cymryd rhan mewn prosiectau a ariannir gan gymorth, gyda ffocws arbennig ar wledydd â blaenoriaeth y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad a'r Adran Datblygiad Rhyngwladol (DFID).

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â nifer o awdurdodaethau ar draws y byd, gan gwrdd â chymheiriaid yn Irac, Kurdistan, Norwy, Moldofa, Rwanda a St Helena. Buom yn gweithio gyda Chyfleuster Buddsoddi DFID hefyd ar y rhaglen Defnyddio Arbenigedd y DU (iFuse) i gefnog Tansania, partner G8 y Llywodraeth ar gyfer Nodau Datblygu'r Mileniwm.

Rydym wedi cynnal ymweliadau astudio ar gyfer cynrychiolwyr o Cyprus, Botswana, Gambia, Hong Kong, Malaysia, Seland Newydd, Nigeria, Rwsia a De Corea. Mae'r ymweliadau hyn wedi cwmpasu ystod eang o'n systemau a phrosesau cofrestru gan gynnwys e-gofrestru, adeiladu capasiti, cyllid a deddfwriaeth.

Rhoddwyd gwasanaeth ymgynghorol i brosiectau yn Uganda a Bermwda. Trefnwyd ymweliad cwmpasu â St Helena, tiriogaeth hynaf Prydain dramor, i geisio sicrhau cynaliadwyedd a moderneiddio ei system gofrestru.

Cymerwyd rhan hefyd mewn astudiaeth proffil gwlad o Moldofa wedi'i drefnu gan Gomisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ewrop (UNECE).

Cafodd Ed Lester, Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr ei benodi i Bwyllgor UNECE ar gyfer Tai a Rheoli Tir. Cafodd Alasdair Lewis, Cyfarwyddwr Gwasanaethau

Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir, ei benodi fel Llywydd Cymdeithas Cofrestrfa Tir Ewrop. Ailethodwyd Julie Barry i Weithgor UNECE ar Weinyddu Tir (WPLA).

Cafodd y Pennaeth Strategaeth Ddata, Andrew Trigg, ei wahodd i siarad mewn cynadleddau yn cynnwys Cynhadledd Banc y Byd ar Dir a Thlodi yn Washington DC. Roedd Julie yn gyflwynydd yn yr un gynhadledd, lle y bu'n siarad am waith WPLA ac un o'i brosiectau allweddol.

Cymerodd Emma Vincent ran yng nghenhadaeth fasnach dan nawdd UKTI i Bencadlys yr African Development Bank yn Tunisia.

## Ystad

Gwerthwyd hen adeilad Swyddfa Stevenage, Brickdale House, am £1.5m, gan leihau'r ystad gyffredinol gan 9,175metr sgwâr arall.

Roedd y 14 adeilad swyddfa a feddiannwyd gennym ar ddiwedd y flwyddyn yn gyfanswm o 78,667 metr sgwâr. Ein cyfanswm gwariant ar eiddo (gan gynnwys rhent, trethi busnes a thaliadau gwasanaeth) a rheoli cyfleusterau (gan gynnwys cyfleustodau, post a reprograffeg) oedd tua £26m. Roedd ein gwariant ar wasanaethau wedi'u contractio allan gyda'r darparwr rheoli cyfleusterau Carillion yn £12.3 miliwn, gan gynnwys gwaith prosiect mawr gwerth £0.3 miliwn.

Roedd ein hystad a feddiannir fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng o 14.13 metr sgwâr i 14.05 metr sgwâr.

Cafodd Drakes Hill Court, Plymouth ei farchnata i'w werthu a'i gwblhau yn Ebrill 2014. Mae hyn yn lleihau'r ystad gan 7,613 metr sgwâr.

Mae contractau amodol wedi cyrraedd camau olaf y trafodaethau ar gyfer gwerthu 25 erw yn Chalfont Drive, hen safle Swyddfa Nottingham. Disgwylir cwblhau gwerthu'r adeilad erbyn diwedd Medi 2014 ac os aiff hyn rhagddo bydd yn lleihau'r ystad gan 25,207 metr sgwâr.

Mae trafodaethau helaeth ar y cam olaf i gytuno ar brydlesi ar saith o'n hen adeiladau meithrinfa i ddarparwr gofal plant, gan leihau'r ystad gan tua 1,465 metr sgwâr.

Rydym yn parhau i rannu lle dros ben yn ein hadeiladau ag adrannau eraill o'r llywodraeth a gwelwyd cydleoli pellach eleni gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghaerloyw a HMRC yn Telford. Erbyn hyn mae ein tenantiaid yn meddiannu 5,185 metr sgwâr o'r ystad.

## Digwyddiadau diogelwch

Mae diogelwch corfforol yn cael ei orchwylio gan y Pwyllgor Diogelwch Corfforol a Phersonél. Cofnodwyd 84 digwyddiad yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys dau ddigwyddiad o bwys (Dosbarth 1).

## Busnes cyfrifol

Rydym wedi ymrwymo i fod yn fusnes cyfrifol. Rydym yn cydweithio'n agos â Busnes yn y Gymuned i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo a chorffori ymddygiad busnes cyfrifol yn ein sefydliad. Mae pobl y Gofrestrfa Tir wedi parhau i fanteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli yn y gymuned, a bwriadwn annog staff i wirfoddoli drwy hyrwyddo ein polisi gwirfoddoli a gweithgareddau penodol. Yn 2013/14, roedd 136 o aelodau staff wedi gwirfoddoli ar draws ystod o weithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys dysgu Saesneg i ffoaduriaid a hyfforddiant swyddi. Mae cydweithwyr yn swyddfeydd Plymouth a Systemau Gwybodaeth wedi parhau i wirfoddoli fel hyfforddwyr swyddi gyda Shekinah Mission, y partner cyflenwi lleol yn Plymouth a Torbay ar gyfer yr ymgyrch Gweithredu ar Ddigartrefedd Busnes yn y Gymuned.

Mae gwirfoddoli yn cynnig manteision mawr i'r gymuned leol ac mae ein gwirfoddolwyr hefyd yn elwa'n bersonol drwy fagu mwy o hyder a datblygu eu sgiliau rhyngbersonol eu hunain.

Rydym yn cefnogi ein gweithwyr sy'n codi arian at achosion elusennol, ac mae nifer o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal ar draws ein swyddfeydd i godi arian ar gyfer nifer o elusennau cenedlaethol a lleol. Ni yw'r adran fwyaf llwyddiannus sy'n cymryd rhan yn Her Taith Gerdded Rithwir flynyddol yr Elusen Gweision Sifil, gan helpu i godi arian hanfodol i'r elusen.

Yn ogystal â gweithgareddau yn y gymuned, rydym hefyd yn parhau i weithredu fel busnes cyfrifol mewn ffyrdd eraill. Fel y nodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn, rydym yn mynd ati i sicrhau ein bod yn talu anfonebau ein cyflenwyr yn brydlon er mwyn eu helpu gyda'u llif arian a chynllunio busnes. Mae cynaliadwyedd a rheoli'r amgylchedd hefyd yn elfen allweddol o'n perfformiad busnes cyfrifol, ynghyd â'n gweithgareddau iechyd a lles i gefnogi ein gweithwyr.



# Cyfrifon

## Datganiad llywodraethu

### Maes cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir, rwyf yn gyfrifol, ar y cyd â Bwrdd y Gofrestrfa Tir, am gynnal llywodraethu corfforaethol sy'n ategu cyflawni nodau, amcanion a thargedau'r Gofrestrfa Tir, gan warchod cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r Gofrestrfa Tir yr un pryd.

Mae fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u hamlinellu yn *Rheoli Arian Cyhoeddus.* Rwyf yn atebol am berfformiad a stiwardiaeth drwy Fwrdd y Gofrestrfa Tir i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau gyda chyfrifoldeb o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Gweinidog dros Fusnes a Menter.

Mae'r prif ddyletswyddau o ran cynnal y gofrestr o deitl i dir rhydd-ddaliol a phrydlesol ac arwystlon wedi'u diffinio yn Neddf Cofrestru Tir 2002 (gweler *Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud* ar dudalen 9). Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu fel adran anweinidogol, cronfa fasnachu ac asiantaeth weithredol.

### Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod y Gofrestrfa Tir yn cyflawni ei dyletswyddau mewn ffordd sy'n bodloni'r safonau uchaf o reolaeth fewnol a rheoli risg effeithiol. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar brosesau sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflawni strategaeth y Gofrestrfa Tir, yr amcanion strategol a'r targedau. Ei nod yw gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r cyfleoedd a'r risgiau hynny (a'r effaith os cânt eu gwireddu) a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn bwriadu cyfateb â nodau strategol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'n dyletswyddau statudol a amlinellir yn *Nogfen Fframwaith 2012*. Mae'r fframwaith yn cydymffurfio â'r cod newydd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet, *Llywodraethu corfforaethol yn adrannau llywodraeth ganol: Cod ymarfer da 2011.* Mae'r fframwaith a ddisgrifir wedi bod yn ei le drwy gydol 2013/14 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon.

### Elfennau allweddol y fframwaith

Mae'r Gofrestrfa Tir yn adran anweinidogol o'r llywodraeth. Mae hefyd yn aelod o'r Grŵp Data Cyhoeddus o dan nawdd Busnes, Arloesedd a Sgiliau ynghyd â'r Arolwg Ordnans, y Swyddfa Feteorolegol a Thŷ'r Cwmnïau. Nod y Grŵp Data Cyhoeddus yw hwyluso datblygu strategaethau data a sicrhau cydweithrediad rhwng y sefydliadau dan sylw.

Mae Strategaeth Fusnes y Gofrestrfa Tir yn amlinellu'r amcanion pum mlynedd a nodwyd yn y 12 targed penodol a chafodd ei chymeradwyo gan y Gweinidog yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn Rhagfyr 2012. Mae'n rhoi awdurdod i'r mentrau strategol gwirioneddol ac arfaethedig ac i gyfeiriad cyffredinol y busnes.

Datblygwyd y Strategaeth Fusnes yn 2012/13, yn dilyn trosglwyddo nawdd o'r Arglwydd Ganghellor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, gyda mewnbwn gan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr. Roedd wedi ystyried y sefyllfa ariannol, yr angen i gynyddu gwaith digidol a'r angen i ddisodli systemau gwybodaeth sy'n heneiddio er mwyn gwasanaethu'r farchnad cofrestru tir yn fwy effeithiol ac am lai o gost i'r cwsmer gan sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'n data. Cafodd y Strategaeth Fusnes ei chymeradwyo yn Rhagfyr 2012.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys:

- *Dogfen Fframwaith 2012*
- cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir
- cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio
- cylch gorchwyl y Pwyllgor Tâl ac Enwebu
- cylch gorchwyl y Bwrdd Gweithredol a'i is-bwyllgorau ategol
- materion a gadwyd yn ôl ar gyfer y Bwrdd Gweithredol
- cofnodion a phwyntiau cyfathrebu
- cymeradwyaeth weinidogol ar gyfer yr amcanion y tu ôl i'r Strategaeth Fusnes
- gwybodaeth am y Strategaeth Fusnes newydd a llinynnau portffolio cysylltiedig.

Mae'r fframwaith llywodraethu hefyd yn cynnwys cylchau gorchwyl, penderfyniadau allweddol a gwybodaeth berthnasol arall ar gyfer:

— cynrychiolaethau awdurdodau
— is-bwyllgorau dan arweiniad cyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol
— pwyllgorau ail haen perthnasol dan arweiniad Penaethiaid y Grŵp
— y Strategaeth Fusnes.

## Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth i greu amgylchedd lle mae perfformiad a risg yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cynnwys y Cadeirydd Anweithredol Mark Boyle, pedwar cyfarwyddwr anweithredol arall, minnau fel y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr a hefyd y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

Mae strwythur Bwrdd y Gofrestrfa Tir a ddisgrifir uchod yn sicrhau cydbwysedd rhwng aelodaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol. Mae'r aelodaeth anweithredol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr. Rôl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yw rhoi arweiniad, goruchwyliaeth ac arbenigedd anweithredol, megis ar gyfer strategaethau digidol a data a datblygiad strategol.

Mae'r aelodau anweithredol presennol yn annibynnol ar y rheolwyr. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o benodiadau cwmni neu drefniadau ymgynghoriaeth gan aelodau'r Bwrdd a allai greu gwrthdaro buddiannau posibl gyda'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Bwrdd oedd heb gael sylw priodol.

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, tasg Bwrdd y Gofrestrfa Tir yw rhoi cyngor a goruchwylio pum brif faes.

— Eglurder strategol.
— Synnwyr masnachol.
— Pobl dalentog.
— Canolbwyntio ar ganlyniadau.
— Gwybodaeth rheoli.

Tabl o bresenoldeb ar fyrddau a phwyllgorau 2013/14

| | Teitl | Cyfnod | Bwrdd | | Pwyllgorau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bwrdd y Gofrestrfa Tir | Bwrdd Gweithredol | Archwilio | Tâl ac Enwebu |
| **Anweithredol** | | | | | | |
| Mark Boyle | Cadeirydd Anweithredol | o 24 Hyd 2011 | 10/11 | – | – | 3/3 |
| Tim Franklin | Cyfarwyddwr Anweithredol | o 8 Gorff 2012 | 11/11 | – | 4/4 | – |
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol | o 8 Gorff 2012 | 10/11 | – | – | 4/4 |
| Kirsty Pearce | Cyfarwyddwr Anweithredol | o 1 Tach 2012 | 11/11 | – | – | – |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol | o 1 Medi 2013 | 6/7 | – | 1/2 | 1/1 |
| Derrick Palmer | Aelod anweithredol (Pwyllgor Archwilio) | o 19 Maw 2013 | – | – | 3/4 | – |
| **Gweithredol** | | | | | | |
| Ed Lester | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | o 13 Mai 2013 | 9/10 | 9/11 | 4/4 | 4/4 |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | o 22 Maw 2011 tan 13 Mai 2013 | 0/1 | 1/1 | – | – |
| Alasdair Lewis | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | | – | 9/12 | – | – |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | | 10/11 | 9/12 | – | – |
| Camilla Black | Cyfarwyddwr Cyllid (dros dro) | o 27 Awst 2013 tan 9 Mai 2014 | 7/7 | 7/7 | 3/3 | – |
| Paul Hemsley | Cyfarwyddwr Cyllid (dros dro) | o 21 Chwe 2013 tan 28 Awst 2013 | 4/4 | 5/5 | 1/1 | – |
| Eddie Davies | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro | o 1 Ionawr 2013 | – | 11/12 | – | – |
| Rowland Coombs | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth Dros Dro | wedi mynychu cyfarfodydd o Hyd 2012 | – | 11/12 | – | – |
| Caroline Anderson | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | o 16 Rhag 2013 | – | 4/4 | – | 1/1 |
| Jon Cocking | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro | wedi mynychu cyfarfodydd o Faw 2013 | – | 7/9 | – | 3/3 |
| Grahame Hughes | Pennaeth Archwilio Mewnol | | – | – | 4/4 | – |
| Matthew Guntrip | Sicrwydd a Risg | | – | – | 2/2 | – |
| Archwilio Allanol | Swyddfa Archwilio Genedlaethol | | – | – | 4/4 | – |

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r swyddogion anweithredol wedi chwarae rhan lawn ym musnes Bwrdd y Gofrestrfa Tir drwy eu presenoldeb a'u cyfraniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau ategol fel y crynhoir uchod. Roedd Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi chwarae rhan weithredol a chadarn wrth gefnogi a herio datblygiad y Strategaeth Fusnes a'i gweithredu.

## Gwybodaeth am ansawdd y data a ddefnyddir gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn derbyn cerdyn sgôr cytbwys o wybodaeth perfformiad. Mae'r wybodaeth sylfaenol yn cael ei darparu gan systemau cynnal sefydledig a weithredir gyda rheolaethau priodol.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro a'i adrodd drwy ddefnyddio system gadarn. Mae gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol yn erbyn cyllidebau a rhagolygon blwyddyn gyfan. Mae adolygiadau rhagolygon chwarterol yn weithredol gan roi'r oruchwyliaeth a'r sicrwydd priodol i'r Bwrdd. Mae'r cyllidebau yn cyfateb â maint y busnes a'r gweithgarwch newid a nodir yn ein cynlluniau. Rhoddir arweiniad a hyfforddiant i sicrhau bod ymddygiad deiliaid cyllideb yn gyson ac rwy'n fodlon bod tanwariant yn cael ei ildio neu fod gorwariant yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl ond os ydynt yn codi eu bod yn cael sylw er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau i gyrraedd y targedau a gyhoeddwyd.



# Pwyllgorau Bwrdd y Gofrestrfa Tir

**Y Pwyllgor Archwilio**
Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei gadeirio gan Tim Franklin. Mae'r aelodau a wasanaethodd i'w gweld yn y tabl blaenorol ynghyd â'r mynychwyr, gan gynnwys y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a staff eraill sy'n mynychu drwy wahoddiad.

Mae'r pwyllgor yn cynorthwyo Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd drwy gyfrwng gwybodaeth ac adroddiadau ar:

- y broses strategol ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu a'r datganiad llywodraethu hwn
- y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys lefelau'r gwallau a nodwyd a llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr i'r archwilwyr allanol
- gweithgareddau seiliedig ar risg arfaethedig a chanlyniadau Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr rheoli Archwilio Allanol
- sicrwydd ynghylch gofynion llywodraethu corfforaethol i'r sefydliad
- polisïau atal twyll, prosesau chwythu'r chwiban a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Bwrdd.

Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac wedi cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd.

**Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu**
Cyfarfu'r Pwyllgor Tâl ac Enwebu bedair gwaith yn ystod 2013/14, dan arweiniad Catrina Holme o fis Medi.

**Y Bwrdd Gweithredol**
Mae'r Bwrdd Gweithredol yn fy nghynorthwyo gyda'm cyfrifoldebau dros reolaeth a chyfeiriad gweithredol, datblygu strategaeth, rheoli risg strategol, perfformiad yn erbyn targedau cyhoeddedig, dyletswyddau statudol, penderfyniadau a datblygu cynllunio portffolio buddsoddi'r Gofrestrfa Tir.

Bob mis, ar y cyd â'r Bwrdd Gweithredol, adolygaf berfformiad ariannol a gweithredol y Gofrestrfa Tir gan asesu cynnydd tuag at y targedau blynyddol cyhoeddedig. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso'r adnoddau ariannol a ddefnyddiwyd, rhagolygon ariannol ac asesiad o'r sefyllfa ariannol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn parhau i roi amrywiaeth wrth wraidd ei strategaeth cwsmeriaid a phobl. Mae'r Pwyllgor Amrywiaeth yn adrodd i mi ac yn fy helpu i sicrhau cynnydd da yn erbyn targedau ac amcanion cydraddoldeb yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol yn rhoi sicrwydd i mi fod cyfrifoldebau cymunedol ehangach y Gofrestrfa Tir yn cael eu cyflawni'n briodol.

Yn ystod 2013/14 roedd y Bwrdd Gweithredol wedi goruchwylio rhaglen weithgarwch y Strategaeth Fusnes yn fanwl. Roedd hyn yn cynnwys gwaith i ddatblygu model gweithredu targedau (TOM) arfaethedig ar gyfer gwireddu'r buddiannau a amlinellir yn y strategaeth. Roedd y Bwrdd hefyd wedi adolygu datblygu dewisiadau model masnachol ar gyfer y Gofrestrfa Tir sy'n cael ei arwain gan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr o'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.

**Archwilwyr**
Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n adrodd i'r Senedd, wedi archwilio'r cyfrifon (gweler adroddiad y Cyfarwyddwr Ariannol).

**Risg**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu rwy'n goruchwylio'r risgiau strategol a reolir gan y tîm gweithredol ac yn ceisio sicrwydd ar y rheolaeth risg i'r gyfarwyddiaeth i ddarparu cyfle ar gyfer trosglwyddo i lefel uwch. Mae systemau rheoli risg yn ceisio bod yn gymesur ac yn effeithiol o ran risgiau perthnasol.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried risgiau strategol. Y Prif Gyfarwyddwr Cyllid yw hyrwyddwr risg y Bwrdd Gweithredol. Gwerthuswyd yr archwaeth risg yn ystod adolygiad o'r prif risgiau strategol. Bob mis mae'r risgiau strategol yn cael eu hadrodd a'u hadolygu yn y Bwrdd Gweithredol; mae adolygiad risg mwy trylwyr yn cael ei gwblhau bob chwarter hefyd. Mae dangosyddion arweiniol yn cael eu monitro i roi rhybudd cynnar o newidiadau i'r risg strategol.

Mae strategaeth rheoli risg yn ei le ar bob lefel yn y sefydliad i sicrhau bod risgiau'n cael eu lliniaru'n effeithiol.

Mae'r strategaeth rheoli risg yn cynnwys adolygiad rheolaidd o'r risgiau i'r gyfarwyddiaeth gan uwch dimau rheoli sy'n cefnogi eu Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae hyn yn cynnig modd adolygu'r risgiau strategol a berchenogir gan y Cyfarwyddwyr ac yn cysylltu â risgiau gweithredol eraill gyda chyfle i drosglwyddo i lefel uwch. Mae cyflwyno'r fenter Perfformiad ac Arloesedd (Lean) wedi corffori rheoli risg i ganolbwyntiau perfformiad, gan gynnig modd adolygu risgiau yn rheolaidd gyda'r cyfle i drosglwyddo risg o ganolbwyntiau perfformiad lefel is hyd at y Bwrdd Gweithredol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gorchwylio'n fanwl perfformiad a sefyllfa weithredol ac ariannol y Gofrestrfa Tir. Mae'r Bwrdd Gweithredol hefyd yn goruchwylio'n agos gynnydd y Strategaeth Fusnes a datblygu rhagdybiaethau ariannol a modelu ar gyfer y model gweithredu targedau a'r gwaith model masnachol newydd, drwy gyfarfodydd adolygu wythnosol a'r Byrddau misol ffurfiol.

Drwy ddirprwyo i gyfarwyddwyr gweithredol caf fy sicrhau gan waith y Pwyllgor Cynllunio Cyllidebu a Buddsoddi, y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, y Pwyllgor Gwarchod y Gofrestr, y Pwyllgor Pobl a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Mae'r gwaith o reoli'r risgiau ariannol, risg gwybodaeth, risg i'r Gofrestr Tir a'r dyletswyddau iechyd a diogelwch a statudol yn cael eu rheoli gan y pwyllgorau hyn a'u cyfeirio ataf fel y bo'n briodol, yn ôl disgresiwn y cyfarwyddwr perthnasol ar gyfer pob pwyllgor.

Wynebwn heriau a risgiau i fodloni ein hamcanion busnes strategol. Mae'r risgiau strategol yn canolbwyntio ar warchod cyfanrwydd y gofrestr, gallu a chapasiti i gyflawni'r rhaglen o newid a methu â gwireddu cyflymder cyflawni'r Strategaeth Fusnes gan arwain at oedi wrth wireddu'r buddiannau.

**Risg gwybodaeth**
Rheolir risg gwybodaeth drwy'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, dan arweiniad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth. Cânt sicrwydd gan y ffurflenni risg gwybodaeth sy'n cael eu cwblhau gan ein Perchnogion Asedau Gwybodaeth a disgrifiadau asedau wedi'u dogfennu'n llawn. Mewn ymateb i'r bygythiad cynyddol o ymosodiadau meddalwedd maleisus rydym wedi cryfhau ac ehangu ein rheolaethau gwrthfeirysau. Rydym hefyd wedi adolygu a thynhau'r gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu ein ffeiliau log cyfrifiadurol. Caf sicrwydd gan ardystiad y Gofrestrfa Tir sy'n cydymffurfio ag ISO14001, ISO20000 ac ISO27001 a chan achrediad ar gyfer Cod Cysylltu GSI, IAMM a CMMI.

**Diogelu gwybodaeth**
Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau'r lefelau priodol o fodiwlau dysgu Diogelu Gwybodaeth ac Atal Twyll a Llygru ar Civil Service Learning (CSL). Mae CSL wedi uno dau bwnc yn un modiwl hyfforddi bellach o'r enw Cyfrifol am Wybodaeth. Mae cyfres o becynnau Cyfrifol am Wybodaeth wedi'u hanelu at rolau amrywiol o fewn y sefydliadau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob aelod o staff gwblhau'r modiwl defnyddiwr cyffredinol.

**Colli data**
Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Contractwyr**
Cyflogwyd nifer o gontractwyr gan y Gofrestrfa Tir yn ystod 2013/14 i ategu'r Strategaeth Fusnes. Ceisiwyd sicrwydd ar gyfer eu trethiad. Gyda dau eithriad, roedd y trefniadau hyn yn cydymffurfio â gofynion yr Adolygiad o Drefniadau Treth Penodeion y Sector Cyhoeddus a BIS. Fel y nodwyd yn yr adroddiad Tâl, roedd y Cyfarwyddwyr Cyllid mewn swydd am gyfnodau oedd yn fwy na'r terfyn o chwe mis a amlinellir yn y canllawiau. Mae'r Gofrestrfa Tir wedi nodi mewn digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd bod sancsiwn ariannol yn codi o un o'r eithriadau hyn.

**Amgylchedd risg**
Mae ein risgiau strategol yn cael eu hasesu bob mis ac yn destun adolygiadau llawn bob tri mis. Mae'r amgylchedd risg cyffredinol wedi datblygu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda phwyslais arwyddocaol ar y risgiau ynghylch darparu'r buddiannau o fewn y Strategaeth Fusnes; mewn gwirionedd yr amgylchedd risg a ddatblygwyd gyda'r ffocws cynyddol ar risg cysylltiedig â newid.

Yn benodol cafodd risgiau newydd eu hadnabod ynghylch dulliau effeithiol o reoli contractau, gyda'r pwyslais ar y cysylltiadau i newid a'r newid posibl yn statws y Gofrestrfa Tir, a'r risg yw'r difrod posibl i reolaeth contractau optimal yn ystod y gweithgaredd hwn. Yn ogystal roedd y risg ynghylch y gallu i ddiogelu gallu ar bob lefel ar gyfer trawsnewid ac ar gyfer parhad busnes wedi cynyddu.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd yn bwysig cadw golwg ar y risgiau sy'n ymwneud â gweithgaredd busnes yn ôl yr arfer. Drwy gadw perfformiad busnes parhaus ym mlaen ein meddyliau rydym ni wedi gallu sicrhau bod targedau perfformiad busnes yn cael eu cyflawni yn wyneb cynnydd mewn llwythi gwaith a'r ansicrwydd sy'n deillio o'r Strategaeth Fusnes.

Roedd gwerthuso risgiau ail haen ar lefel y gyfarwyddiaeth wedi adnabod bod y risgiau â blaenoriaeth yn ymwneud â phobl a gallu wedi'u dilyn gan risgiau i wireddu'r buddiannau o'r Strategaeth Fusnes. Felly mae'r amgylchedd risg yn canolbwyntio ar newid gyda risgiau strategol wedi'u cydbwyso rhwng newid a yrrir gan rymoedd allanol ac effaith fewnol newid.

**Archwaeth risg**
Ar draws y sefydliad dilynwn egwyddorion archwaeth risg Swyddfa'r Cabinet. Gofynnir i'n Bwrdd Gweithredol ystyried a chofnodi'r archwaeth ar gyfer pob risg strategol a'i adolygu'n rheolaidd.

Mae ein fframwaith rheoli risg yn cynnwys methodoleg ar gyfer pennu archwaeth risg. Mae hyn yn sicrhau bod yr ymatebion i bob risg neu grwpiau o risgiau yn gadarn ac yn gymesur. Mae archwaethau risg strategol unigol yn cael eu mesur yn erbyn meini prawf ariannol, enw da a pherfformiad.

**Y Fforwm Sicrwydd**
Mae dau bwrpas i'r Fforwm Sicrwydd. Mae'n gwella ansawdd ein cynllunio sicrwydd drwy gyfathrebu rheolaidd rhwng y darparwyr amrywiol ac mae'n sicrhau bod dyblygu'r ymdrech sicrwydd ar draws y sefydliad yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i Fwrdd y Gofrestrfa Tir ac i'r cyfarwyddwyr gweithredol ar gywirdeb y ffynonellau sicrwydd a nodwyd ym mhob un o fapiau sicrwydd y gyfarwyddiaeth.

Gan weithio'n chwarterol, mae'r fforwm yn gwerthuso mapiau sicrwydd y gyfarwyddiaeth yn fanwl ac yn ystyried sut y mae'r ffynonellau sicrwydd yn lliniaru'r risgiau penodedig i'r gyfarwyddiaeth a'r risgiau strategol cysylltiedig. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi adolygu cynnydd y Fforwm Sicrwydd yn Rhagfyr 2013 a Mawrth 2014.

## Llywodraethu ac effeithiolrwydd gan gynnwys ffynonellau sicrwydd eraill

**Datblygu'r Strategaeth Fusnes**
Yn ystod 2013/14 roedd chwe amcan perfformiad allweddol wedi'u gosod i sefydlu'r momentwm tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Strategaeth Fusnes pum mlynedd. Er bod y cerrig milltir hyn yn marcio'r camau cyntaf tuag at yr amcanion a osodwyd i'w cwblhau yn 2017/18, roedd gwaith datblygu a chynllunio pellach yn ofynnol yn ystod 2013/14 er mwyn sefydlu cynlluniau manwl i gefnogi'r strategaeth.

Sefydlais dîm i ddatblygu'r model gweithredu targedau ar gyfer cyflwyno'r strategaeth a datblygu'r model masnachol priodol ar gyfer darparu gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir yn y dyfodol, yr olaf i gefnogi'r fenter wedi'i gyrru gan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr o'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.

Roedd y cymorth yn cynnwys pobl sydd â phrofiad perthnasol i'r Strategaeth Fusnes o'r Gofrestrfa Tir, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a sefydliadau allweddol eraill. Roedd y tîm yn cynnwys staff priodol sydd â'r arbenigedd a'r wybodaeth fanwl sy'n ofynnol i ddatblygu llinynnau cydrannol y strategaeth. Cawsant eu cynorthwyo ymhellach drwy benodi contractwyr allanol oedd â galluoedd profedig ym maes modelu, datblygu strategaeth, llywodraethu, rheoli risg a rheoli newid.

Yn 2013/14, cwblhawyd archwiliad mewnol yn gwerthuso'r rhagdybiaethau sylfaenol o ddatblygiad y Strategaeth Fusnes a ddigwyddodd yn 2012/13. Roedd yr adolygiad wedi delio â sampl o ragdybiaethau oedd yn tanseilio'r strategaeth ehangach (yn hytrach na'r strategaeth ei hun). Roedd yr archwiliad wedi adnabod angen am lefel gynyddol o fanylion wrth i'r sefydliad symud drwy ddatblygiad y strategaeth. Roedd gwaith dilynol yn y flwyddyn 2013/14 wedi rhoi sylw i'r materion hyn.

Ar yr un pryd roedd Archwilio Mewnol wedi ystyried y gwaith yn 2013/14 tuag at y model gweithredu targedau ar gyfer y Strategaeth Fusnes a chanfod bod yr ymagwedd wedi rhoi sylw i bob un o'r materion a nodwyd o'r gwerthusiad o'r archwiliad o ragdybiaethau 2012/13.

Cafodd Archwilio Mewnol ei wahodd i gynnal goruchwyliaeth barhaol o waith y model gweithredu targedau gan roi adroddiadau byr i mi yn rhoi sicrwydd a chyngor. Caf sicrwydd gan eu hadroddiad a ddaeth i'r casgliad bod y tîm datblygu model gweithredu targedau wedi gweithio fel tîm cydlynol, effeithiol, gyda'r amcan cyffredin o greu model wedi'i ystyried yn drwyadl a'i gyfiawnhau'n dda a fydd yn cynnig modd i'r Gofrestrfa Tir fod y sefydliad o'r maint a'r patrwm mwyaf priodol i gyflawni ei fusnes craidd.

Dangoswyd yn glir bod penderfyniadau'n cael eu hategu gan drafodaethau seiliedig ar dystiolaeth a gwerthuso a bod effeithiau posibl y penderfyniadau hyn ar feysydd eraill o'r sefydliad, ei staff a'i gwsmeriaid, wedi cael eu

hystyried. Caf fy sicrhau hefyd gan Archwilio Mewnol fod y risgiau (o ran datblygu'r model gweithredu targedau ei hun ac effeithiau cysylltiedig yr egwyddorion o'i fewn ar gyfer cyflenwi a thu hwnt) yn cael eu hystyried mewn ffordd ddigon trwyadl.

**Sicrwydd caffael/rheoli contract**
Caf fy sicrhau gan y Prif Swyddog Caffael, o leiaf yn flynyddol, bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau'r Swyddfa'r Cabinet a'r Trysorlys a bod uwch reolwyr wedi cydymffurfio â'r rhain a chanllawiau caffael penodol y Gofrestrfa Tir.

**Ar ddata a chywirdeb y sefyllfa o ran Dangosyddion Perfformiad Allweddol**
Caf fy hysbysu ynghylch cywirdeb perfformiad y sefydliad yn erbyn targedau cyhoeddedig gan yr adroddiad archwilio ar ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n gwerthuso'r systemau a'r dulliau sylfaenol ar gyfer adrodd. Rwy'n fodlon bod y system i ddarparu gwybodaeth am berfformiad yn gadarn ac yn darparu gwybodaeth amserol briodol i sicrhau rheolaeth effeithiol o berfformiad. Cyfraniad allweddol i'r casgliad hwn yw'r gwerthusiad a roddir i mi gan Archwilio Mewnol ar effeithiolrwydd systemau'r DPA. Yn 2013/14 roedd Archwilio Mewnol yn gallu darparu sicrwydd sylweddol ar adrodd gweithredol a strategol o wybodaeth i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae pob un o gyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol yn rhoi sicrwydd i mi ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth risg a rheolaethau cysylltiedig sy'n ceisio rheoli risg a sicrhau'r perfformiad a stiwardiaeth effeithiol o asedau yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014. Caf fy hysbysu gan waith y Fforwm Sicrwydd bod mapiau sicrwydd yn dangos bod ffynonellau sicrwydd priodol yn eu lle i liniaru risgiau i'r gyfarwyddiaeth.

Caf sicrwydd fod perfformiad y sefydliad yn effeithiol drwy ddefnyddio'r ganolfan Perfformio ac Arloesedd a ddefnyddir gan y Bwrdd Gweithredol. Caiff ei hysbysu gan y systemau perfformiad sylfaenol a'r wybodaeth risg a chaiff ei grynhoi mewn canolfan gwybodaeth gynhwysfawr sy'n cael ei hadolygu bob mis gan y Bwrdd Gweithredol. Mae sail y wybodaeth hon yn llywio'r cerdyn sgôr cytbwys, wedi'i gyfuno ag adroddiad ariannol sy'n cael ei adolygu gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir 11 gwaith y flwyddyn. Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Gweithredol yn asesu ac yn monitro ein perfformiad a'r systemau rheolaeth fewnol gysylltiedig yn gyson. Mae ein harchwilwyr mewnol wedi adolygu systemau ar sail diogelwch cyllid a gwybodaeth.

**Rôl archwilio mewnol**
Rôl archwilio mewnol yw darparu gwasanaeth cymorth archwilio a sicrwydd i'r rheolwyr gan archwilio ac adrodd ar systemau rheolaeth a rheoli risg y Gofrestrfa Tir ar draws ei holl swyddogaethau. Mae Archwilio Mewnol yn ategu gwaith y Pwyllgor Archwilio sy'n archwilio risg a rheolaeth ac yn fy nghynghori fel y Swyddog Cyfrifyddu.

Mae ein harchwilwyr mewnol yn gweithredu yn ôl y safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio sy'n cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau rheolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Ym marn y Pennaeth Archwilio Mewnol mae gan y Gofrestrfa Tir systemau digonol o reoli risg a phrosesau rheolaeth a llywodraethu effeithiol i reoli'r gwaith o gyflawni ein hamcanion.

**Ed Lester**
Swyddog Cyfrifyddu
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
14 Gorffennaf 2014





# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol mewn ffurf ac ar sail a osodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 75. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir, ei hincwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro sylweddol yn y datganiadau ariannol, a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol ac am warchod asedau'r Gofrestrfa Tir, i'w gweld yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu sy'n cael ei baratoi gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.



# Adroddiad tâl

## Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau amrywiol
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y'u nodwyd yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth
- targed chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r corff adolygu yn ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae cyflog y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr yn cael ei osod gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae Pwyllgor Tâl y Gofrestrfa Tir, sy'n gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan reolwyr llinell ac yn penderfynu sut y caiff tâl perfformiad ei ddosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer uwch weision sifil y Gofrestrfa Tir, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol i uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk/recruitment/working/pay-and-reward/scs-pay

Yn ystod y flwyddyn aelodau'r Pwyllgor Tâl Uwch oedd: Mark Boyle (Cadeirydd), Catrina Holme ac Ed Lester (hyd at 30 Medi 2013); a Catrina Holme (Cadeirydd), Gerard Connell ac Ed Lester (o 1 Hydref 2013).

## Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Yn dilyn rhewi cyflogau'r sector cyhoeddus am ddwy flynedd, talwyd cynnydd o £250 i weithwyr yn y tair gradd isaf a chymhwyswyd 1 y cant o gynnydd i gamau tâl yr holl fandiau tâl cenedlaethol eraill. Roedd hyn wedi darparu codiad tâl blynyddol lleiaf o £250, cyfwerth ag amser llawn, i bob aelod o staff. Roedd dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn cael eu talu yn seiliedig ar berfformiad a aseswyd drwy'r system arfarnu flynyddol.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni bai y nodir fel arall, mae'r holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'r contract yn gynnar i gyfarwyddwyr ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw ar sail camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei ddigolledu fel yr amlinellir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

**Cadeirydd Bwrdd y Gofrestrfa Tir**
Mae penodiad y Cadeirydd Mark Boyle wedi cael ei estyn gan ddeunaw mis o 24 Ebrill 2013 ar sail dau ddiwrnod yr wythnos.

**Prif Weithredwr**
Daeth penodiad Malcolm Dawson i ben ar 31 Mai 2013. Penodwyd Ed Lester o 22 Ebrill 2013 am gyfnod o dair blynedd ac mae'n amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis.

**Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro**
Penodwyd Paul Hemsley o 21 Chwefror 2013 ar sail tymor byr drwy asiantaeth dros dro gweithredol. Daeth ei gontract gyda'r Gofrestrfa Tir i ben ar 28 Awst 2013.

Penodwyd Camilla Black o 27 Awst 2013 ar sail tymor byr drwy asiantaeth dros dro gweithredol.

Roedd Adolygiad o Drefniadau Treth Penodeion y Sector Cyhoeddus wedi amlinellu gofynion yn ymwneud â chontractwyr sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol. Mae'r nodyn yn y datganiad llywodraethu ar gontractwyr ar dudalen 54 a'r nodyn digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd ar dudalen 93 yn cyfeirio at hyn.

**Cyfarwyddwyr anweithredol**

Mae penodiadau Tim Franklin a Catrina Holme o 8 Gorffennaf 2012 am gyfnod na fydd yn fwy na thair blynedd fel rheol.

Mae penodiad Kirsty Pearce o 1 Tachwedd 2012 am gyfnod na fydd yn fwy na thair blynedd fel rheol. Mae'n cynrychioli buddiannau'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan y Gofrestrfa Tir.

Mae penodiad Gerard Connell o 1 Medi 2013 ar gyfer cyfnod na fydd fel rheol yn fwy na thair blynedd fel rheol.

**Datgeliadau oddi ar y gyflogres**

Mae ymrwymiadau oddi ar y gyflogres fel ar 31 Mawrth 2014, ar gyfer mwy na £220 y dydd ac sy'n para dim hwy na chwe mis.

| **Ymrwymiadau presennol fel ar 31 Mawrth 2014** | **5** |
|---|---|
| Ymrwymiadau sy'n bod: | |
| – am lai na blwyddyn ar adeg adrodd | **5** |
| – rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd | – |
| – rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd | – |
| – rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd | – |
| – am bedair blynedd neu ragor ar adeg adrodd | – |

| | |
|---|---|
| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014, am fwy na £220 y dydd ac sy'n para yn hwy na chwe mis. | |
| **Ymrwymiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014** | **5** |
| – sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran wneud cais am sicrwydd mewn perthynas â threth incwm a rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol | **5** |
| – y mae sicrwydd wedi cael ei geisio ar eu cyfer | **5** |
| Ymrwymiadau: | |
| – y mae sicrwydd wedi cael eu derbyn ar eu cyfer | – |
| – nad yw sicrwydd wedi cael ei dderbyn ar eu cyfer | **5*** |
| – sydd wedi cael eu terfynu o ganlyniad i sicrwydd heb gael ei dderbyn | – |

| | |
|---|---|
| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014 | |
| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol | **2** |
| Unigolion yr ystyrir eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol" yn ystod y flwyddyn ariannol. Gallai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres | **2** |

Penodwyd Cyfarwyddwr Ariannol dros dro yn Chwefror 2013 pan adawodd y Cyfarwyddwr Cyllid parhaol a thra'n aros am recriwtio'r Prif Swyddog Ariannol i arwain y rhaglen o newid.

*Mae'r Gofrestrfa Tir wrthi'n dilyn ei hawl gytundebol i geisio'r sicrwydd, ar ffurf tystiolaeth, sy'n ofynnol o dan PPN 07/12 fod ymrwymiadau treth incwm ac Yswiriant Gwladol yn cael eu bodloni.

## Cyflog a thâl perfformiad - cyfarwyddwyr gweithredol[1]

| | 2013/14 | | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Tâl perfformiad | Buddion mewn nwyddau | Buddion pensiwn | Cyflog | Tâl perfformiad | Buddion mewn nwyddau | Buddion pensiwn |
| | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf | £ | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf | £ |
| Ed Lester[2] | 125 – 130 | – | – | 50,000 | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (135 – 140) | – | – | – | – | – | – | – |
| Malcolm Dawson [3] | 15 – 20 | 0 – 5 | – | – 21,000 | 105 – 110 | 15 – 20 | – | 6,000 |
| Blynyddol cyfatebol | (105 – 110) | – | – | – | – | – | – | – |
| Alasdair Lewis | 95 – 100 | 10 – 15 | – | 8,000 | 95 – 100 | – | – | 7,000 |
| John Peaden | 90 – 95 | 10 – 15 | – | 76,000 | 85 – 90 | 10 – 15 | – | 19,000 |
| Camilla Black[4] | 150 – 155 | – | – | – | – | – | – | – |
| Paul Hemsley[5] | 105 – 110 | – | – | – | 25 – 30 | – | – | – |
| Heather Foster[6] | 5 – 10 | 0 – 5 | – | – 24,000 | 90 – 95 | – | – | 17,000 |
| Blynyddol cyfatebol | (90 – 95) | – | – | – | – | – | – | – |
| Caroline Anderson[7] | 25 – 30 | – | – | 10,000 | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (90 – 95) | – | – | – | – | – | – | – |
| Jon Cocking[8] | 60 – 65 | 0 – 5 | – | 36,000 | 5 – 10 | – | – | 3,000 |
| Blynyddol cyfatebol | (65 – 70) | – | – | – | (65 – 70) | – | – | – |
| David Evans[9] | 5 – 10 | 0 – 5 | – | – 29,000 | 80 – 85 | – | – | – 1,000 |
| Blynyddol cyfatebol | (80 – 85) | – | – | – | – | – | – | – |
| Rowland Coombs | 70 – 75 | 0 – 5 | – | 47,000 | 35 – 40 | 0 – 5 | – | 34,000 |
| Blynyddol cyfatebol | – | – | – | – | (70 – 75) | – | – | – |
| Eddie Davies | 65 – 70 | 0 – 5 | 300 | 88,000 | 15 – 20 | – | – | 12,000 |
| Blynyddol cyfatebol | – | – | – | – | (65 – 70) | – | – | – |
| Annette Davies-Govett[10] | 25 – 30 | 0 – 5 | – | – 7,000 | 90 – 95 | – | – | – 11,000 |
| Blynyddol cyfatebol | (90 – 95) | – | – | – | – | – | – | – |

1. Wedi'i archwilio.
2. Penodwyd Ed Lester yn Brif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr o 22 Ebrill 2013 gyda chyflog cychwynnol o 13 Mai 2013.
3. Gadawodd Malcolm Dawson y Gofrestrfa Tir gyda dyddiad gadael o 13 Mai 2013.
4. Penodwyd Camilla Black fel Cyfarwyddwr Cyllid o 27 Awst 2013. O dan delerau'r penodiad hwn derbyniodd asiantaeth weithredol dros dro £173,420 ar gyfer gwasanaethau safonol, ac o'r rhain cadwodd yr asiantaeth £20,631. Hefyd talodd y Gofrestrfa Tir yr asiantaeth TAW o £34,684, ac nid oedd y Gofrestrfa Tir yn gallu adennill hwn.
5. Gadawodd Paul Hemsley y Gofrestrfa Tir ar 28 Awst 2013. O dan delerau'r penodiad hwn derbyniodd asiantaeth dros dro gweithredol £120,640 ar gyfer gwasanaethau safonol, ac o hyn fe gadwodd yr asiantaeth £14,352. Hefyd talodd y Gofrestrfa Tir yr asiantaeth TAW o £24,128, ac nid oedd y Gofrestrfa Tir yn gallu adennill hwn.
6. Gadawodd Heather Foster y Gofrestrfa Tir ar 19 Mawrth 2013 gyda dyddiad gadael o 19 Ebrill 2013.
7. Penodwyd Caroline Anderson fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol o 16 Rhagfyr 2013.
8. Roedd Jon Cocking wedi sefyll i lawr fel Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol ar 31 Rhagfyr 2013 yn dilyn penodi Caroline Anderson.
9. Gadawodd David Evans y Gofrestrfa Tir ar 15 Mawrth 2013 gyda dyddiad gadael o 19 Ebrill 2013.
10. Gadawodd Annette Davies-Govett y Gofrestrfa Tir ar 14 Mehefin 2013; mae ei chyflog a adroddir yn cynnwys symiau ar gyfer iawndal yn lle rhybudd a'r gwyliau blynyddol heb eu cymryd.

**Cyflog - cyfarwyddwyr anweithredol[1]**

| | 2013/14 £'000 | 2012/13 £'000 |
|---|---|---|
| Mark Boyle<br>Cadeirydd Anweithredol | 60 – 65 | 60 – 65 |
| Tim Franklin<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 10 – 15 |
| Blynyddol cyfatebol | – | (20 – 25) |
| Catrina Holme<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 10 – 15 |
| Blynyddol cyfatebol | – | (20 – 25) |
| Kirsty Pearce[2]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | – | – |
| Gerard Connell[3]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 10 – 15 | – |
| Blynyddol cyfatebol | (20 – 25) | – |

1. Wedi'i archwilio.
2. Mae Kirsty Pearce yn weithiwr amser llawn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau; nid yw'n cael unrhyw dâl ychwanegol gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer ei rôl fel cyfarwyddwr anweithredol.
3. Penodwyd Gerard Connell o 1 Medi 2013.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau a gedwir i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y codir treth y DU arnynt. Mae'r tabl ar dudalen 63 yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

## Dyfarniadau perfformiad

Mae dyfarniadau perfformiad yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae dyfarniadau perfformiad yn cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn pan gawsant eu talu i'r unigolyn. Mae'r dyfarniadau perfformiad a nodwyd yn 2013/14 yn ymwneud â pherfformiad yn 2012/13 ac mae'r dyfarniadau perfformiad cymharol a nodwyd ar gyfer 2012/13 yn ymwneud â pherfformiad yn 2011/12.

## Buddion pensiwn[1]

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronnus Mawrth 2014 | | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) ar 31 Mawrth | | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | 2014 | 2013[2] | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ed Lester[3] Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 2.5 – 5.0 | – | 0.0 – 5.0 | – | 52 | – | 42 |
| Malcolm Dawson[4] OBE Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 0.0 – 2.5 | 0.0 – 2.5 | 40 – 45 | 125 – 130 | 774 | 747 | 1 |
| John Peaden Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid | 2.5 – 5.0 | 10.0 – 12.5 | 40 – 45 | 125 – 130 | 877 | 759 | 67 |
| Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 0.0 – 2.5 | 0.0 – 2.5 | 35 – 40 | 105 – 110 | 708 | 657 | 6 |
| Heather Foster[5] Cyfarwyddwr Cyllid | 0.0 – 2.5 | 0.0 – 2.5 | 40 – 45 | 120 – 125 | 882 | 880 | – |
| Caroline Anderson[6] Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 0.0 – 2.5 | – | 0.0 – 5.0 | – | 8 | – | 6 |
| Jon Cocking[7] Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro | 0.0 – 2.5 | – | 15 – 20 | – | 192 | 159 | 19 |
| David Evans[8] Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro | – 2.5 – 0.0 | – | 50 – 55 | – | 1,081 | 1,048 | – 1 |
| Rowland Coombs Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth Dros Dro | 0.0 – 2.5 | 5.0 – 7.5 | 30 – 35 | 95 – 100 | 645 | 569 | 39 |
| Eddie Davies Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro | 2.5 –5.0 | 10.0 – 12.5 | 20 – 25 | 70 – 75 | 345 | 271 | 54 |
| Annette Davies-Govett[9] Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 0.0 –2.5 | – | 10 – 15 | – | 137 | 137 | – 1 |

1. Wedi'i archwilio.
2. Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn 2013/14. Mae'r gwerthoedd ar 31/3/13 a 31/3/14 wedi cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Felly mae'r gwerthoedd ar 31/3/13 yn wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.
3. Ed Lester o 22 Ebrill 2013.
4. Malcolm Dawson tan 13 Mai 2013.
5. Heather Foster tan 19 Ebrill 2013.
6. Caroline Anderson o 16 Rhagfyr 2013.
7. Jon Cocking tan 31 Rhagfyr 2013.
8. David Evans tan 19 Ebrill 2013.
9. Annette Davies-Govett tan 14 Mehefin 2013.

# Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun buddion wedi'u diffinio; naill ai cynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a ddyfernir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r cynllun buddion wedi'u diffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'pwrcasu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 1.5 y cant a 6.25 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic a 3.5 y cant ac 8.25 y cant ar gyfer cynlluniau premium, classic plus a nuvos. Bydd cynnydd yng nghyfraniadau gweithwyr yn gymwys o 1 Ebrill 2014. Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun classic plus yn hybrid i bob pwrpas, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth ar ôl Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn cynllun honno, ac mae'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid cymeradwy a ddewiswyd gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes yn oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o'r cynllun classic, premium a classic plus a 65 oed ar gyfer aelodau nuvos.

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk/pensions

## Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a'i asesu'n actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn y mae aelod wedi'u cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn gŵr neu wraig sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniadau pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniadau pensiwn eraill pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau CETV yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniadau eraill y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu budd pensiwn ychwanegol o'i boced ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniadau pensiwn eraill) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac eraill - pecynnau ymadael[1]**

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014 | 2013 | 2014 | 2013 | 2014 | 2013 |
| £0–£10,000 | – | – | – | – | – | – |
| £10,001–£25,000 | – | – | 2 | 10 | 2 | 10 |
| £25,001–£50,000 | – | – | 15 | 7 | 15 | 7 |
| £50,001–£100,000 | – | – | 2 | 1 | 2 | 1 |
| £100,001–£150,000 | – | – | 2 | 2 | 2 | 2 |
| £150,001–£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| >£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael | – | – | 21 | 20 | 21 | 20 |
| **Cyfanswm cost** | – | – | **£1,004,362** | **£719,597** | **£1,004,362** | **£719,597** |

1. Wedi'i archwilio

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau ex-gratia yn 2013/14 (2012/13: dim).

## Digolledu am golli swydd

Gadawodd Heather Foster o dan delerau ymadael gwirfoddol ar 19 Ebrill 2013. Derbyniodd dâl digolledu o £147,728 yn unol â'r canllawiau a'r telerau ac amodau.

Gadawodd David Evans o dan delerau oedran ymddeol arferol ar 19 Ebrill 2013. Nid yw'r Gofrestrfa Tir wedi derbyn unrhyw atebolrwydd ychwanegol mewn perthynas â'i ymddeoliad.

Gadawodd Annette Davies-Govett o dan delerau ymadael gwirfoddol ar 14 Mehefin 2013. Cafodd taliad digolledu o £40,194.

Mae costau diswyddo a gadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb dan gontract i adael. Os yw'n gymwys, mae'r costau ychwanegol o brynu allan budd pensiwn is yn cael eu talu gan y Gofrestrfa Tir ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cymarebau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, taliadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

| | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000) | 135 – 140 | 120 – 125 |
| **Cyfanswm canolrif (£)** | **27,394** | **26,166** |
| Cymhareb tâl | 5.0 | 4.7 |

Yn 2013/14, ni chafodd unrhyw weithwyr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £135,000 - £140,000 i £15,000 - £20,000, (2012/13: £120,000 - £125,000 i £15,000 - £20,000).

Byddai penodi cyfarwyddwr dros dro am gyfnod byr i ddarparu arbenigedd mewn rôl allweddol yn ystod cyfnod o newid mawr yn ystumio'r gymhareb tâl fel arall, ac felly nid yw wedi'i ddangos. At ddibenion cymharu amcangyfrifir y byddai'r tâl 'cyfatebol blynyddol' a delir ar gyfer y rôl cyfarwyddwr dros dro yn 2013/14 yn £255,000 - £260,000 (2012/13: £220,000 - £225,000), a fyddai'n cynhyrchu cymhareb tâl o 9.3 (2012/13: 8.5).

**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
14 Gorffennaf 2014



# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl hefyd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi'i harchwilio.

**Cyfrifoldebau priodol y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd**
Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**
Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cofrestrfa Tir EM ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau pwysig rwyf yn ystyried goblygiadau'r rhain ar gyfer fy nhystysgrif. Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar Reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar y Datganiadau Ariannol**
Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2014 a'i gwaged a gadwyd, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraethu 1973; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

**Materion rwyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd amdano ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r adran o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r manylion, neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**
Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

14 Gorffennaf 2014



# Datganiadau ariannol

## Datganiad o incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | | 2014 | 2013 |
|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | £'000 |
| Incwm - gweithrediadau parhaus | 2 | **381,278** | 347,157 |
| Cost gwasanaeth | 2 | **(227,871)** | (227,751) |
| Gwarged gros | 2 | **153,407** | 119,406 |
| Costau gweinyddol | 2 | **(12,053)** | (10,515) |
| **Gwarged gweithredu** | | **141,354** | 108,891 |
| Elw ar waredu asedau anghyfredol | | **66** | 3,913 |
| Incwm buddsoddi - llog i'w dderbyn | 5 | **1,622** | 1,468 |
| Costau cyllid | 6 | **(953)** | (936) |
| Amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth | 8.1, 9.1 | **(5,357)** | (4,053) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3.2 | **(1,630)** | (10,529) |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | | **135,102** | 98,754 |
| Difidend i'w dalu | 7 | **(26,654)** | (25,960) |
| Difidend arbennig | 7 | **(100,000)** | – |
| **Gwarged a gadwyd am y flwyddyn ariannol** | | **8,448** | 72,794 |
| Enillion ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | **1,373** | 3,363 |
| **Gwarged cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol** | | **9,821** | 76,157 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 75 i 93 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2014

| | | **2014** | | 2013 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **87,334** | | 91,389 | |
| Asedau anniriaethol | 9 | **11,194** | | 17,263 | |
| Eraill i'w derbyn | 11.2 | **1,771** | | 1,126 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **100,299** | | 109,778 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stocrestrau | 10 | **1,615** | | 1,455 | |
| Masnach ac eraill i'w derbyn | 11.1 | **9,616** | | 7,337 | |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 12 | **464,639** | | 472,583 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **475,870** | | 481,375 |
| Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu | 8.3 | | **12,950** | | 14,344 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **589,119** | | 605,497 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill i'w talu | 13.1 | **46,393** | | 62,617 | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.1, 15.1 | **1,376** | | 1,606 | |
| Darpariaethau tymor byr | 17.1 | **10,015** | | 10,870 | |
| | | | **57,784** | | 75,093 |
| Y Gronfa Indemniad | 17.2 | | **64,900** | | 67,800 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **122,684** | | 142,893 |
| **Asedau anghyfredol gydag asedau cyfredol net** | | | **466,435** | | 462,604 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.2, 15.1 | **6,548** | | 6,840 | |
| Darpariaethau hirdymor | 17.1 | **15,466** | | 20,255 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **22,014** | | 27,095 |
| **Asedau net** | | | **444,421** | | 435,509 |
| **Cyfalaf a chronfeydd** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | | | **61,545** | | 61,545 |
| Cronfa ailbrisio | | | **32,680** | | 32,494 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | | **350,196** | | 341,470 |
| | | | **444,421** | | 435,509 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 75 i 93 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
14 Gorffennaf 2014

# Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | Cronfa Ailbrisio | Cronfa Incwm a Gwariant | Cyfanswm cronfeydd |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2012 | 61,545 | 34,001 | 268,419 | 363,965 |
| Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2012/13 | | | | |
| Cronfa ailbrisio | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | – | (257) | 257 | – |
| Enillion wedi'u realeiddio ar werthu eiddo | – | (4,263) | – | (4,263) |
| Ailbrisio asedau anghyfredol | – | (350) | – | (350) |
| Gwarged cynhwysfawr | – | 3,363 | 72,794 | 76,157 |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2013 | 61,545 | 32,494 | 341,470 | 435,509 |
| **Newidiadau i gronfeydd 2013/14** | | | | |
| Cronfa ailbrisio | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | **–** | **(278)** | **278** | **–** |
| Enillion wedi'u realeiddio ar werthu eiddo | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Ailbrisio asedau anghyfredol | **–** | **(909)** | **–** | **(909)** |
| Gwarged cynhwysfawr | **–** | **1,373** | **8,448** | **9,821** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2014** | **61,545** | **32,680** | **350,196** | **444,421** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 75 i 93 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Nodiadau | 2014<br>£'000 | 2013<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 20.1 | **139,599** | 107,783 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | | **(1,725)** | (2,515) |
| Prynu asedau anniriaethol | | **(77)** | (20) |
| Enillion ar waredu asedau diriaethol | | **1,755** | 3,085 |
| Llog a dderbyniwyd | | **1,139** | 1,403 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **1,092** | 1,953 |
| **Gweithgareddau ariannu** | | | |
| Difidendau a dalwyd | | **(145,960)** | (13,776) |
| Ad-daliadau o elfen gyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(1,722)** | (2,258) |
| Elfennau llog rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(953)** | (936) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau ariannu** | | **(148,635)** | (16,970) |
| **(Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol** | 20.2 | **(7,944)** | 92,766 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn** | 20.2 | **472,583** | 379,817 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **464,639** | 472,583 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 75 i 93 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2013/14 (FReM) ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag adran 4(6) (a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Defnyddiwyd polisïau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod sail busnes gweithredol yn briodol oherwydd mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol yn ymwneud â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd i gynnal y busnes yn y dyfodol. Fel y nodir ar dudalen 25 mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau na wnaethpwyd unrhyw benderfyniad i newid model gweithredu'r Gofrestra Tir.

Mae un mater IFRS heb fod yn weithredol eto, ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu dan sylw, sef IFRS 13 Gwerth Teg - Mesur, sydd wedi cael ei baratoi i ddarparu canllawiau cyson ar fesur gwerth teg. Mae'n amodol ar adolygiad pellach gan Drysorlys EM cyn ei fabwysiadu, ond ni ddisgwylir iddo gael effaith o bwys ar y datganiadau ariannol.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau a ddelir i'w gwerthu, asedau anniriaethol ac, os ydynt o bwys, stocrestrau i werth teg fel y pennwyd gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Technegau amcangyfrif

Mae amcangyfrifon a safbwyntiau yn cael eu gwerthuso'n gyson ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Yr amcangyfrifon a'r safbwyntiau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad pwysig i'r symiau sy'n cario o asedau a rhwymedigaeth o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yw

- Nodyn 17.2 - darpariaeth amcangyfrifedig ar gyfer hawliadau indemniad.
- Nodyn 8 - amharu asedau anghyfredol.
- Nodyn 17.1 - ymddeoliad cynnar a darpariaethau taliad diswyddo.
- Nodyn 13 - incwm gohiriedig - ffioedd a dderbynnir ymlaen llaw.

### 1.4 Incwm ffioedd

Dyma'r incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys ffioedd, yn glir o unrhyw ad-daliadau, ar gyfer gwasanaethau statudol i gofrestru teitl a phridiannu tir, gan gynnwys credydau amaethyddol, ac ar gyfer incwm masnachol. Mae ad-daliadau yn cael eu cydnabod ar gyfer trafodion sydd heb eu cwblhau neu ar drafodion lle mae gwybodaeth wallus wedi cael ei rhoi gan gwsmeriaid. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol yn y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu.

*Cofrestru teitl*
Mae'r llinyn cofrestru teitl yn rhoi gwasanaethau cofrestru cyntaf, gwaredu prydlesi cyntaf, trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig, deliadau â'r cyfan o dir cofrestredig a gwasanaethau rhagarweiniol i gwsmeriaid, ymysg pethau eraill.

*Pridiannau tir a chredydau amaethyddol*
Mae'r Gofrestrfa Tir yn cadw cofrestri o bridiannau tir, gweithredoedd sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo, sydd heb eu cofrestru o dan y Ddeddf Cofrestru Tir.

Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cadw Mynegai o Enwau Perchnogion (IOPN). Gall y mynegai hwn gael ei chwilio dim ond drwy gynhyrchu'r awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i sefydlu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

*Incwm masnachol*
Daw'r incwm masnachol o ddata gofodol, data heb fod yn ofodol, gwasanaethau ymgynghorol, dangosydd risg o lifogydd a gwasanaethau masnachol eraill.

Yn achos rhai gwasanaethau rhaid anfon y tâl gyda'r cais sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu nodi fel ffioedd a dderbynnir ymlaen llaw a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol.

**1.5 Segmentau gweithredu**
Mae segmentau gweithredu'r Gofrestrfa Tir wedi'u trefnu o gwmpas y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac fe'u hadroddir mewn ffordd sy'n gyson â'r adroddiadau mewnol a ddarperir i'r prif benderfynwr gweithredu. Y tri phrif segment busnes yw Cofrestru Teitl, Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol ac Incwm Masnachol. Mae hyn yn seiliedig ar drefniadaeth fewnol y grŵp a'r strwythur rheoli, a dyma'r brif ffordd y mae'r prif benderfynwr gweithredu yn cael gwybodaeth ariannol. Prif benderfynwr gweithredu'r Gofrestrfa Tir yw Ed Lester.

**1.6 Yswiriant**
Codir yswiriant ar y datganiad o incwm cynhwysfawr ar sail y premiymau gwirioneddol a dalwyd, ar gyfer yswirio eiddo, lifftiau, y fflyd ceir, defnyddio ceir hur a theithio dramor.

**1.7 Buddion gweithwyr**
Cydnabyddir cost darparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd y Gofrestrfa Tir yn derbyn gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr tymor byr fel traul yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb diwrthdro i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynllun neu o ganlyniad i annog diswyddo gwirfoddol.

**1.8 Pensiynau**
Mae gweithwyr y Gofrestrfa Tir yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr heb ei gyllido, ond nid yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol yn rhesymol ac ar sail gyson. Felly mae'r Gofrestrfa Tir wedi cyfrif am gyfraniadau a thaliadau i'r Cynllun o dan IAS 19 fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae rhwymedigaeth dros dalu buddion yn y dyfodol yn dâl ar y Cynllun. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Fe gewch fanylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet o dan Flwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

**1.9 Eiddo, offer a chyfarpar**
Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol bob tair blynedd. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu prisiad 'bwrdd gwaith'. Cafodd prisiad llawn ei gwblhau yn Ionawr 2014.

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir ddatgelu asedau anghyfredol eraill yn y datganiad o sefyllfa ariannol am werth teg. Yn achos asedau heb fod yn eiddo sydd ag oes fer defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o werth teg yr ased. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi'u cynnwys am ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad. Mae'r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys am gost hanesyddol llai'r dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Mae'r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu'r gost neu'r swm wedi'i ailbrisio, llai gwerth gweddillol amcangyfrifedig asedau anghyfredol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio'r dull llinell syth.

Mae eiddo, offer a chyfarpar arall yn cynnwys TG ac offer swyddfa, cerbydau modur a pheiriannau. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyfalafu gwariant dros £1,000 ar gyfer ased unigol. Lle y bo'n briodol, mae asedau unigol sy'n mynd yn is na'r gwerth lleiaf ar gyfer cyfalafu yn cael eu grwpio. Polisi'r Gofrestrfa Tir yw peidio â chyfalafu gwraint ar osodiadau a ffitiadau, dodrefn swyddfa yn bennaf, oherwydd ni ystyrir eu bod yn bwysig.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol.

| | | |
|---|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | | dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | | 2 y cant |
| Adeiladau prydlesol | | cyfnod y brydles |
| Cyfarpar telegyfathrebu | | 20 y cant |
| Offer swyddfa | | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | prif-ffrâm | 20 y cant |
| | mini a chyfrifiaduron personol | 33¹/₃ y cant |
| Cerbydau modur | | 25 y cant |
| Ceblo strwythuredig | | 10 y cant |
| Offer a pheiriannau trwm | | 10 y cant |

Mae asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu yn cael eu cario am werth teg llai costau i'w gwerthu ac ni chânt eu dibrisio. Mae'r Gofrestrfa Tir yn dosbarthu ased anghyfredol fel un a ddelir i'w werthu os caiff ei swm cario ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r ased fod ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol a rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod debygol.

**1.10 Amhariad o asedau anghyfredol**
Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd. Os yw'r ased yn cael ei gario am swm wedi'i ailbrisio, mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio, yn ôl maint y gronfa ailbrisio sy'n berthnasol i'r ased, gydag unrhyw dâl dros ben wedi'i nodi yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, mae swm yr ased y gellir ei adennill yn cael ei amcangyfrif er mwyn

pennu graddfa'r golled amhariad. Y swm y gellir ei adennill yw'r uchaf o werth teg llai costau i'w werthu a gwerth defnyddio. Wrth asesu gwerth defnyddio mae'r llifoedd arian amcangyfrifedig yn y dyfodol yn cael eu disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd disgownt gymwys y llywodraeth sef 3.5 y cant.

**1.11 Asedau anniriaethol**
*Trwyddedau meddalwedd*
Mae asedau anniriaethol a gafaelwyd ar wahân yn cael eu dangos am gost hanesyddol. Mae'r costau sy'n codi i brynu a defnyddio'r asedau hyn wedi'u cyfalafu. Mae'r rhain yn cynnwys taliadau contractwyr, deunyddiau, llafur i'w briodoli'n uniongyrchol a chostau gorbenion i'w priodoli'n uniongyrchol.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi'u cynnwys am gost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o

| | |
|---|---|
| Prif ffrâm | 20 y cant |
| Bwrdd gwaith | 33$^{1}/_{3}$ y cant |

*Costau datblygu meddalwedd*
Yn unol ag IAS 38, gall y gwariant sy'n codi ar ddatblygu is-adeiledd TG newydd (yn cwmpasu costau trydydd parti a'r costau uniongyrchol o ymdrechion staff mewnol) gael ei gyfalafu. Mae costau datblygu na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw wedi'u rheoli gan y Gofrestrfa Tir yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fydd y meini prawf canlynol wedi'u bodloni.

— Mae'n ymarferol yn dechnegol i gwblhau'r cynnyrch meddalwedd er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio.

— Mae'r rheolwyr yn bwriadu cwblhau'r cynnyrch meddalwedd a'i ddefnyddio neu ei werthu.

— Gellir defnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd.

— Gellir dangos sut y bydd y cynnyrch meddalwedd yn creu budd economaidd tebygol yn y dyfodol.

— Mae adnoddau technegol, ariannol ac eraill digonol i gwblhau'r gwaith datblygu neu ddefnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd ar gael.

— Gall y gwariant i'w briodoli i'r cynnyrch meddalwedd yn ystod ei ddatblygiad gael ei fesur yn ddibynadwy.

Mae'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wedi'u cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol. Mae gwariant datblygu arall sydd heb fodloni'r meini prawf hyn yn cael eu cydnabod fel gwariant sy'n codi. Mae costau datblygu a chafodd eu cydnabod yn flaenorol fel traul heb eu cydnabod fel ased yn y cyfnod dilynol.

Mae'r holl wariant ymchwil yn cael ei ddileu wrth iddo godi.

*Porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway*
Mae'r Gofrestrfa Tir wedi datblygu tair system ac mae pob un ohonynt yn cael eu defnyddio bellach i ddarparu e-wasanaethau. Mae'r costau o ddatblygu'r systemau TG (porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway) wedi cael eu cyfalafu fel asedau anniriaethol ar y datganiad o sefyllfa ariannol. Yn wreiddiol tybiwyd bod gan yr asedau hyn oes ddefnyddiol o 10 mlynedd ac yn y blynyddoedd blaenorol cawsant eu hamorteiddio ar sail llinell syth am 10%. Yn 2013/14 mae adolygiad o oes ddefnyddiol y systemau hyn wedi arwain at leihad yn yr amcangyfrifiad o'u hoes ddefnyddiol i wyth mlynedd. Mae amorteiddio 'dal i fyny' wedi cael ei godi y flwyddyn hon ac erbyn hyn mae'r asedau yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth, ar gyfradd o 12.5 y cant dros yr oes ddefnyddiol ddisgwyliedig ddiwygiedig o wyth mlynedd. Cafodd y systemau eu hadolygu ac mae'r ddefnyddiol amcangyfrifedig wedi cael ei phennu drwy gyfeirio at oesau defnyddiol asedau tebyg eraill sy'n cael eu defnyddio yn y Gofrestrfa Tir. Os yw gwelliannau sylweddol i'r systemau hyn yn cael eu gwneud, mae'r costau sy'n codi yn cael eu trin fel cydran ar wahân a gellir eu cyfalafu (yn amodol ar fodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu o fewn IAS 38). Mae'r cydrannau hyn yn cael eu hamorteiddio dros eu hoes ddefnyddiol.

**1.12 Stocrestrau**
Mae gwaith ar y gweill wedi'i ddatgan ar yr isaf o gost a gwerth realeiddio net. Mae'r gost yn cynnwys costau mewnol staff a gorbenion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wrth baratoi tystysgrif y Gofrestrfa Tir i'r cwsmer. Mae gwerth realeiddio net yn seiliedig ar y ffi a godir ar y cwsmer llai'r costau pellach y disgwylir iddynt godi wrth gwblhau'r gwasanaethau.

**1.13 Masnach i'w dderbyn**
Nid yw masnach i'w dderbyn yn cario unrhyw log a chaiff ei ddatgan ar ei werth nominal fel masnach wedi'i leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau nad oes modd eu hadennill. Mae'r darpariaethau amharu hyn yn cael eu cofnodi yng nghostau gweinyddol o fewn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Cymerir bod y swm sy'n cario o fasnach i'w dderbyn yn frasamcan o werth teg.

Os yw symiau i'w derbyn yn disgwyl cael eu casglu o fewn blwyddyn neu lai cânt eu dosbarthu fel asedau cyfredol.

**1.14 Arian parod ac arian parod cyfatebol**
Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS), arian ar adnau gyda'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac mewn cyfrifon banc masnachol. Mae'r banc masnachol a'r adneuon GBS yn gronfeydd sydd ar gael ar unwaith. Mae adneuon y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yn fuddsoddiadau tymor byr o chwe mis neu lai ac ni ellir eu had-dalu tan bydd y benthyciad yn aeddfedu.

**1.15 Masnach i'w dalu**
Mae masnach i'w dalu yn rhwymedigaethau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu caffael yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr. Mae cyfrifon i'w talu wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Mae masnach i'w dalu wedi'i ddatgan ar ei werth nominal. Ystyrir bod swm sy'n cario masnach i'w dalu yn frasamcan o werth teg.

**1.16 Deilliadau wedi'u corffori**
Mae deilliadau wedi'u corffori mewn contractau lletyol yn cael eu trin fel deilliadau ar wahân os nad yw eu risgiau a'u nodweddion wedi'u cysylltu'n agos â rhai'r contract lletyol a chyfrifir amdanynt ar wahân. Nid yw adolygiad o brif gontractau'r Gofrestrfa Tir wedi adnabod unrhyw ddeilliadau wedi'u corffori ac felly nid oes angen datgeliad ar wahân.

**1.17 Darpariaethau**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Os yw effaith diystyru yn sylweddol, mae darpariaethau yn cael eu diystyru i'r gwerth presennol disgwyliedig o'u llifoedd arian yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfradd disgownt rhydd o risg. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol. (Rhoddir rhagor o fanylion, gan gynnwys sensitifrwydd, yn Nodyn 17).

**1.18 Y Gronfa Indemniad**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu taliadau digolledu indemniad i drydydd partïon. Mae'r taliadau hawliad yn y dyfodol yn ansicr o ran amseru a swm ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Gronfa Indemniad wedi'i sefydlu ar sail yr amcangyfrif gorau o wariant sy'n ofynnol i fodloni'r rhwymedigaeth. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei phennu ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwaraidd o gost yr hawliadau a gofnodwyd ond heb eu talu, yn ogystal â hawliadau a gafwyd ond heb eu cofnodi. Mae'r brasamcan o gost hawliadau yn cynnwys treuliau sy'n codi wrth dalu'r hawliadau hyn. (Gweler hefyd nodyn 17.2).

**1.19 Rhwymedigaethau wrth gefn**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posibilrwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau, wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o wallau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Gofrestrfa Tir fel yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr.

Er mwyn darparu datgeliad mwy manwl o hawliadau indemniad o dan rwymedigaethau wrth gefn mae'r cyfansymiau ar gyfer cofnodion twyll a chofrestr yn cynnwys symiau sydd hefyd wedi'u cynnwys o fewn y ddarpariaeth Cronfa Indemniad ar gyfer hawliadau a dderbyniwyd. Pe byddai'r ddarpariaeth yn cael ei hepgor ni fyddai modd ddatgelu'r swm sy'n ymwneud â thwyll ar wahân.

**1.20 Prydlesi cyllid**
Os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw'r holl risgiau a manteision o fod yn berchennog ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles gyllid. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid, yn glir o daliadau cyllid, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi o fewn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen gyllid, a godir ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**1.21 Prydlesi gweithredu**
Prydles weithredu yw unrhyw brydles heblaw prydles gyllid. Codir taliadau a wnaed o dan brydlesi gweithredu, yn glir o unrhyw gymhellion a dderbyniwyd gan y prydleswr, (gan gynnwys contractau gyda chymalau trosglwyddo i lefel uwch sefydlog), i'r datganiad o incwm cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

**1.22 Taliadau i gyflenwyr Menter Cyllid Preifat**
Mae gan y Gofrestrfa Tir gytundeb â Steria ar gyfer darparu offer cyfrifiadurol a'r is-adeiledd TG sy'n ofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid, ynghyd â chynnal a chadw. Mae taliadau o dan y contract yn cael eu dyrannu rhwng taliadau ar gyfer yr asedau a'r taliadau ar gyfer cynnal a chadw yn seiliedig ar werthoedd perthynol y gwasanaethau a ddarperir. Mae costau cynnal a chadw yn cael eu codi i'r datganiad o incwm cynhwysfawr fel y codant. Gweler hefyd nodyn 22.

Mae prydlesu offer gydag oes economaidd ddefnyddiol o dair i bum mlynedd wedi'i gynnwys o dan arweiniad IAS 17 Prydlesi. Mae IAS 17 yn ei gwneud hi'n ofynnol i eiddo, offer a chyfarpar, os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrwyon bod yn berchen ar yr asedau hynny, gael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles ar yr isaf o werth teg yr eiddo a brydlesir a gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf.

Mae pob taliad prydles yn cael ei ddyrannu rhwng atebolrwydd a thaliadau cyllid. Mae'r rhwymedigaethau rhentu, yn glir o daliadau cyllid, wedi'u cynnwys yn y symiau taladwy hirdymor eraill. Codir elfen llog y gost cyllid i'r datganiad o incwm cynhwysfawr dros gyfnod y brydles. Mae'r offer a gaffaelir o dan y brydles cyllid gyda Steria yn cael ei ddibrisio dros y byrraf o oes ddefnyddiol yr ased a thymor y brydles.

**1.23 TAW**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Gwasanaethau Allan y Trysorlys. Ar gyfer gweithgaredd anstatudol, sy'n weithgarwch busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi ar y categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu'r asedau anghyfredol. Os yw treth allbwn yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth fewnbwn nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.24 Trethu**
Fel cronfa fasnachu, nid yw'r Gofrestrfa Tir yn atebol i dalu Treth Gorfforaeth.

**1.25 Incwm llog**
Mae incwm llog yn cynrychioli'r llog i'w dderbyn ar yr adneuon banc byrdymor ac fe'i cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr ar sail croniadau.

**1.26 Difidend y Trysorlys**
Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu i'r Trysorlys ddifidend blynyddol sef 5.9 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n ddigonol ym marn y Gofrestrfa Tir i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol. Ni cheir unrhyw effaith bwysig os cyfrifir y ffigur hwn drwy ddefnyddio dull arall e.e. cyfartaledd misol.

**1.27 Ailddatganiadau cyfnod blaenorol**
O dan bolisïau Cyfrifyddu IAS 8, mae newidiadau mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu, addasiadau i gyfnodau blaenorol yn ofynnol ar gyfer newidiadau i bolisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau cyfnod blaenorol, sy'n codi o hepgoriadau neu gamddatganiadau.

Ni chafwyd unrhyw ailddatganiadau cyfnod blaenorol yn 2013/14.

# 2 Segmentau busnes

Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn yn bodloni dau ddiben. Y cyntaf yw cydymffurfio â chanllaw Ffioedd a thaliadau'r Trysorlys a'r ail yw cydymffurfio â'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 8.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu dau wasanaeth statudol ar wahân: cofrestru teitl, a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol. Yn y tabl isod nodir yr incwm ffioedd, cyfanswm cost gwasanaeth a'r gwarged ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn. Mae incwm gwasanaethau masnachol anstatudol wedi'i gynnwys hefyd. Mae cost gwasanaeth a chostau gweinyddol yn cael eu dyrannu os oes modd eu hadnabod ar wahân gyda'r gwasanaeth neu eu dosrannu yn gymesur i'r incwm a gynhyrchir gan bob segment.

| | **Statudol** | | **Anstatudol** | | Statudol | | Anstatudol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cofrestru teitl** | **Pridiannu tir a chredydau amaethyddol** | **Incwm masnachol[1]** | **Cyfanswm** | Cofrestru teitl | Pridiannu tir a chredydau amaethyddol | Incwm masnachol | Cyfanswm |
| | | | | **2014** | | | | 2013 |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm | **371,777** | **5,585** | **3,916** | **381,278** | 337,929 | 4,810 | 4,418 | 347,157 |
| Cost gwasanaeth | **(219,047)** | **(5,083)** | **(3,741)** | **(227,871)** | (220,148) | (4,329) | (3,274) | (227,751) |
| Costau gweinyddol | **(11,505)** | **(279)** | **(269)** | **(12,053)** | (10,081) | (241) | (193) | (10,515) |
| **Gwarged gweithredu** | **141,225** | **223** | **(94)** | **141,354** | 107,700 | 240 | 951 | 108,891 |

1. Yn 2013/14, cytunodd y Gofrestrfa Tir i wneud taliad i'r Arolwg Ordnans am freindaliadau am ddefnydd y Gofrestrfa Tir o'i fapiau mewn perthynas â gwerthu polygonau yn fasnachol. Mae'r taliad hwn yn cwmpasu naw mlynedd hyd at 2013/14 am gyfanswm gwerth o £454k, gyda gwerth amcangyfrifedig ar gyfer 2013/14 o £52k.

   Effaith hyn ar gostau gweithredu gwasanaethau masnachol fyddai lleihad o £0.4m, gan roi elw yn y flwyddyn o £0.3m.

# 3 Gwarged gweithredu

### 3.1 Datgenir gwarged gweithredu ar ôl codi amdano

| | **2014** | 2013 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau staff (gweler nodyn 4.1) | **154,099** | 155,813 |
| Darpariaeth ar gyfer costau indemniad | **(2,900)** | (4,900) |
| Costau seilwaith TG (gweler nodyn 22) | **9,544** | 9,029 |
| Hurio peiriannau | **4,815** | 4,540 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio | **65** | 68 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a berchenogir | **4,471** | 5,570 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a brydlesir | **2,089** | 2,910 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **1,280** | 1,395 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **648** | 356 |
| Tâl am brydlesi gweithredu - adeiladau | **1,395** | 2,447 |
| Incwm amrywiol | **(2,087)** | (1,851) |

### 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | | | | **2014** | | | | 2013 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **RhTC a Glasbrint** | **Cyfanswm** | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo cynnar | RhTC a Glasbrint | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau a gododd yn y flwyddyn | **71** | **–** | **712** | **783** | 38 | 213 | 9,638 | 9,889 |
